

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cynllun Rheoli Asedau 2004 - 2005

..... yn defnyddio adnoddau eiddo er lles pawb.....

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd

Roger Webb, Cyfarwyddwr yr
Amgylchedd

Stuart Bates, Prif Swyddog Eiddo
Is-adran Eiddo
Uned 3 Parc Busnes Woodfieldside
Ffordd Penmaen
Pontllanfraith
Coed Duon NP12 2DG

Ffôn : 01495 235532
Ffacs : 01495 235550
E-bost: batess@caerphilly.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cynllun Rheoli Asedau 2004 - 2005

Cynnwys

Rhagair

- 1.0 Cyflwyniad a Chyd-destun**
- 2.0 Polisi Asedau Corfforaethol**
- 3.0 Yr Amgylchedd Allanol Cyfnewidiol a'r Goblygiadau i Eiddo**
- 4.0 Darparu Gwasanaethau ac Anghenion Adeiladau**
- 5.0 Gofynion yn y Dyfodol**
- 6.0 Y Portffolio Eiddo Presennol a Pherfformiad**
- 7.0 Adolygiad a Her**
- 8.0 Y Strategaeth ac Arfarnu'r Opsiynau**
- 9.0 Rhaglen Rheoli Asedau**

Cyfeiriadau

Atodiadau

Rhagair

Mae'r modd y mae'r Cyngor yn rheoli ei asedau eiddo yn cael effaith fawr ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd a'r amgylchedd lleol. Mae angen defnyddio'r asedau hyn yn y dull gorau posibl er mwyn ategu amcanion corfforaethol ac amcanion gwasanaeth, cyfrannu at waith sefydliadau allanol, a gweithredu fel catalydd ar gyfer adfywio lleol. Ni ellir ymdrin â materion o'r fath yn blwyfol – mae'n rhaid i swyddogion ac aelodau ystyried buddiannau'r Cyngor cyfan a deall pwysigrwydd strategol eiddo.

Sefydlodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Dasglu aelodau yn ystod 2003 er mwyn adolygu a herio'r Cynllun Rheoli Asedau wrth iddo ddatblygu. Ystyrir y Cynllun fel arf i alluogi adnoddau i gael eu defnyddio'n well er mwyn gwella gwasanaethau.

Mae rheolwyr sy'n ymwneud â pharatoi'r Cynllun ym mhob cyfarwyddiaeth wedi cydnabod y cyfle sydd ynghlwm wrth ymagwedd strategol tuag at reoli eiddo a'r buddiannau sy'n gysylltiedig â chynnal arfarniad ar y cyd o angen sy'n llywio penderfyniadau o ran dyrannu adnoddau. Gwnaed llawer o waith da eisoes, ac mae'r ffocws a roddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac a gefnogir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chonsortium Awdurdodau Lleol Cymru wedi galluogi ymdrechion unigol ac arfer da i gael eu tynnu ynghyd er budd corfforaethol.

Y Cynghorydd Colin Mann

Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet ar gyfer Adnoddau

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cynllun Rheoli Asedau 2004 - 2005

1.0 Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1 Y Cyngor

1.1.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cwmpasu ardal o 28,000 o hectarau yn neddwyrain Cymru sydd i'r gogledd o "goridor yr M4", ac sy'n cynnwys tri dyffryn (Rhymni, Sirhywi, ac Ebwy). Dyma'r 4ydd awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru ac mae'n cyflogi tua 9,000 o bobl i ddarparu gwasanaethau i 169,950 o bobl wedi'u lleoli mewn amrywiaeth o drefi a phentrefi sy'n agos i'w gilydd. [Cyf: 1 a 2]

1.1.2 Tîm Rheoli Corfforaethol, dan arweiniad y Prif Weithredwr, ei ddirprwy a thri chyfarwyddwr, sy'n gyfrifol am weithredu busnes y Cyngor o ddydd i ddydd. Mae'r Cyngor bellach yn gweithredu llywodraeth leol yn seiliedig ar ddull cabinet sy'n cyflymu'r broses o wneud penderfyniadau ac yn sicrhau y rhoddir sylw i faterion trawsbynciol fel Rheoli Asedau, a hynny ar y lefel uchaf. [Atodiad 1]

1.2 Fframwaith Cynllunio Corfforaethol

1.2.1 Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn rhesymoli ac yn strwythuro ei ddogfennau polisi, strategaeth, cynllunio a gweithredol yn fframwaith polisi o dan y Cynllun Gwella Gwerth Gorau blynyddol a'r Cynllun Cymunedol. [Cyf: 3] Caiff y polisiâu a'r strategaethau a fabwysiadwyd yn ffurfiol gan y Cyngor eu grwpio drwy gyfeirio at bedair thema allweddol Gweledigaeth a Blaenoriaethau'r Cyngor :

- Adfywio
- Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Yr Amgylchedd Byw
- Addysg am Oes

1.2.2 Caiff y gyfres hon o ddogfennau ei hategu gan fentrau trawsbynciol a chyfarwydddebau gweithredol. Mae egwyddorion Datblygu Cynaliadwy a Chydraddoldeb yn sail i'r blaenoriaethau – ac mae'r polisi cyntaf yn arbennig yn annog partneriaeth yn seiliedig ar gynllunio a darparu gwasanaethau. Bydd y Cynllun Rheoli Asedau yn ddogfen allweddol yn y fframwaith hwn. O dan y pennawd "Cyflenwi'r Strategaethau" mae'r Cynllun Gwella yn nodi'r ymgyrch gorfforaethol yn ogystal â rhoi manylion y trefniadau ar gyfer adolygu perfformiad. [Cyf: 6 - tudalen 51]

1.2.3 Er nad yw'r Cynllun Rheoli Asedau yn gyfrwng ar gyfer Cynaliadwyedd ynddo'i hun, bydd cyfle i hyrwyddo materion cynaliadwyedd a rhoi blaenoriaeth iddynt yn y broses o arfarnu opsiynau ac yn y gweithredoedd eraill a fydd yn deillio o'r cynllun – e.e. lleihau'r defnydd a wneir o ynni mewn adeiladau, annog defnydd aml-bwrpas, prisio cylch bywyd, gwella ansawdd daliadau tir, diogelu a gwella adeiladau sy'n bwysig i'r gymuned. Mae prif egwyddorion cynaliadwyedd yn berthnasol:

- Arbed Adnoddau
- Diogelu'r amgylchedd lleol, a'i amrywiaeth
- Annog argaeledd gwasanaethau yn lleol

- Sicrhau lles y gymuned
- Codi ymwybyddiaeth, cynnwys y gymuned a'i grymuso

1.2.4 Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol i ddatblygu cynlluniau lleol i wella lles economaidd ac amgylcheddol cymdeithasol. Er mwyn sicrhau cysondeb a chymorth, datblygir y cynlluniau hyn o fewn cyd-destun Fforymau Ardal a phartneriaethau ar draws y sir, ond maent hefyd yn gysylltiedig â datblygiadau cynllunio is-ranbarthol a Chymru gyfan. Paratowyd rhestr o bartneriaethau cymunedol gyda datganiad o faterion tir ac eiddo priodol. Er mwyn sicrhau ymagwedd gynhwysfawr a hollgynhwysol, defnyddiwyd y rhestr hon fel rhestr wirio ar gyfer y mentrau a'r materion a nodwyd gan Gyfarwyddiaethau Gwasanaethau.

1.3 Nodau ac Amcanion Corfforaethol

1.3.1 Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i'r weledigaeth o "gydweithio er lles pawb", ac mae wedi mireinio ei flaenoriaethau o ran y pedair thema allweddol y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol. Cytunwyd ar ddwy flaenoriaeth allweddol er mwyn cyflawni'r weledigaeth:

- Swyddi ac adfywio economaidd
- Cynnal a chadw asedau'r gymuned a reolir gan yr awdurdod, a hynny mewn ffordd well a chan ofalu amdanynt

1.3.2 Cyflawnir y nodau hyn drwy ailganolbwyntio adnoddau cyfyngedig y Cyngor ar y meysydd hynny a all gyfrannu mwyaf at gyflawni'r blaenoriaethau allweddol; sicrhau bod rheolwyr yn defnyddio adnoddau sy'n bodoli eisoes i ddarparu gwasanaethau yn unol ag amcanion a blaenoriaethau corfforaethol cytûn; a chynorthwyo'r broses o gyflawni gwaith tîm dilys drwy nodau cytûn a chyffredin. [Cyf: 6 - tudalen 2]

1.4 Fframwaith Trefniadol

1.4.1 Fel rhan o'r gwaith o foderneiddio llywodraeth leol yng Nghymru, mae'r cyngor wedi ymgymryd â dull cabinet o lywodraeth leol. Mae Pwyllgorau Craffu yn cyfarfod bob chwe wythnos i fonitro perfformiad penderfyniadau'r Cabinet yn unol â chynlluniau a pholisïau'r Cyngor. Maent yn gyfrifol am lywio, cynghori a dylanwadu ar y Cabinet, yn ogystal â chraffu ar y penderfyniadau a wnaed.

1.4.2 Arweinir y Tîm Rheoli Corfforaethol gan y Prif Weithredwr. Mae ef a'i ddirprwy yn gyfrifol am wasanaethau corfforaethol a swyddogaethau adnoddau, tra bod tri chyfarwyddwr yn gyfrifol am feysydd gwasanaeth Addysg a Hamdden, Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r Amgylchedd. [Atodiad 1]. At ddibenion arwain proses y Cynllun Rheoli Asedau, mae'r Prif Swyddog Eiddo wedi'i enwebu fel y "Swyddog Eiddo Corfforaethol" sy'n uniongyrchol atebol i'r Prif Weithredwr at y diben hwn.

1.4.3 Mae Grŵp Strategaeth Cyfalaf yn cyflwyno adroddiadau i'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae'r grŵp yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth ac fe'i cadeirir gan y Dirprwy Brif Weithredwr. Mae'r Dirprwy Arweinydd/Aelod y Cabinet ar gyfer Adnoddau hefyd yn mynychu cyfarfodydd y grŵp hwn.

2.0 Polisi Asedau Corfforaethol

2.1 Amcanion Asedau Corfforaethol

- 2.1.1 Mae rhaglen wella'r Cyngor i'r awdurdod cyfan, "Datgloi'r Potensial", yn ceisio dod ag amrywiaeth eang o brosiectau a mentrau unigol ynghyd, gan sicrhau bod yr elfennau gwahanol yn uno yn un cynllun integredig. Yn gorfforaethol, nodi gweledigaeth glir a set o flaenoriaethau y gallai pob gwasanaeth uniaethu â hwy oedd yr hyn yr oedd ei angen. Mae'n rhaid i'r gwaith o reoli'r ystad adlewyrchu polisïau corfforaethol y Cyngor, ei themâu trawsbynciol, ei weledigaethau a hyrwyddo ystyriaeth o ddatblygiad cynaliadwy. Mae'n rhaid talu sylw i flaenoriaethau allweddol adfywio a'r gwaith o gynnal a chadw asedau'r gymuned. [Cyf: 5]
- 2.1.2 Mae'r rhaglen wella yn amlygu'r gwaith parhaus o adolygu asedau tir ac eiddo drwy'r Cynllun Rheoli Asedau. Mae cydnabod na ellir ymdrin â chynllunio rheoli asedau yn blwyfol yn hanfodol er mwyn cyflawni'r gwaith hwn yn llwyddiannus. Mae'n rhaid i swyddogion ac aelodau ystyried buddiannau'r cyngor cyfan, meddwl yn strategol yn hytrach na meddwl yn y tymor byr ac arfarnu ac adolygu daliadau eiddo a pherfformiad yn feirniadol.
- 2.1.3 Mae nod corfforaethol penodedig i reoli tir ac adeiladau'r cyngor yn effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus a darparu amgylchedd byw a gwaith diogel, cynaliadwy a hygyrch i bob defnyddiwr. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu argymhellion a wnaed gan y Prif Swyddog Eiddo a'r Cabinet ar gyfer amcanion yn seiliedig ar egwyddorion rheoli asedau strategol allweddol. [Atodiad 2] Amcanion nodedig y Cyngor o ran eiddo yw:
1. Sicrhau bod yr ystad o'r maint gorau posibl a bod yr adeiladau yn addas at y diben ac mewn cyflwr da
 2. Ymgymryd â'r gwaith o reoli perfformiad asedau ac eiddo mewn dull cyson, gwrthrychol, clir a chydgyssylltiedig o fewn cyd-destun polisïau a blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor
 3. Rheoli eiddo mewn dull hyblyg ac arloesol, gan gynnwys hyrwyddo defnydd ar y cyd a defnydd wedi'i rannu
 4. Diogelu gwerth asedau'r cyngor a rheoli adeiladau yn effeithlon ac yn ddarbodus
 5. Defnyddio sgiliau ac adnoddau sefydliadau allanol i wella'r ystad, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth
 6. Sicrhau bod rhesymeg glir ac amlwg ar gyfer dal eiddo anweithredol a'r eiddo hwnnw dan ddeiliadaeth trydydd partion

2.2 Mesurau Perfformiad

- 2.2.1 Ystyriwyd y gwaith o ddatblygu Dangosyddion Perfformiad a chyflwyno adroddiadau arnynt. Cydnabyddir bod yn rhaid i'r rhain fod yn berthnasol i'r portffolio lleol, yn fesuradwy, a'u bod yn caniatáu cymhariaeth ystyrion. Mae'r amserlen ar gyfer Cynllunio Rheoli Asedau ar gyfer llywodraeth leol yn Lloegr wedi caniatáu i fodolau o'r awdurdodau hynny gael eu hystyried. Fodd bynnag, y tu hwnt i'r dangosyddion cenedlaethol, ymddengys nad oes llawer o gysondeb o ran mesurau perfformiad lleol ac na chânt eu mabwysiadu rhyw lawer ychwaith. [Cyf: 7]
- 2.2.2 O fewn Cymru, mae Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru, drwy gydweithio â'r Archwiliad Dosbarth ac ymgynghorwyr eraill, wedi gwneud ymdrech fawr i ddatblygu mesurau perfformiad o fewn Cymru. Mae'r rhain, ynghyd â'r dangosyddion cenedlaethol yn sail i'r mesurau sydd i'w mabwysiadu gan Gaerffili. [Atodiad 3] I ategu'r rhain, cynigiwyd neu cynigir cyfres o ddangosyddion i'w defnyddio:
- Data portffolio fesul aelod o'r boblogaeth
 - Datganiadau o berfformiad gwirioneddol o gymharu â safonau statudol,

cenedlaethol neu benodol fel rhan o adolygiad arferol gan wasanaethau unigol

- Gwariant atgyweirio a chynnal a chadw yn erbyn angen a lleihau ôl-groniadau
- Cost rhedeg refeniw fesul deiliad neu ddefnyddiwr
- Defnydd o gymharu â'r oriau sydd ar gael ar gyfer defnyddio
- O ran perfformiad y rhaglen gyfalaf, amrywiaeth o fesurau gan gynnwys amser y prosiect, dangosyddion cost ac ansawdd, ynghyd â pherfformiad yn erbyn targedau derbyniadau cyfalaf.

2.2.3 Y bwriad yw darparu cyflwyniad rheolaidd a strwythurol o ddata – gwybodaeth syml, ffeithiol, hawdd i'w deall i gynorthwyo aelodau i wneud penderfyniadau. Bydd cyflwr, addasrwydd ac ystadegau defnyddio yn galluogi aelodau i werthfawrogi'r materion ac ysgogi dadl.

2.3 Barn Rhanddeiliaid

2.3.1 Mae Strategaeth Ymgynghori'r Cyngor yn nodi'r fframwaith er mwyn galluogi gwasanaethau i ymgynghori o fewn eu priod feysydd gwaith. Disgrifir canlyniadau ymarferion ymgynghori unigol a dargedir at grwpiau penodol o ddefnyddwyr gwasanaeth yn y Cynlluniau Gwella Gwasanaeth priodol. Ymhlith ymarferion cyfranogi eraill, mae'r Cyngor hefyd yn gweithredu Panel Barn sy'n mynegi barn dros 600 o aelodau o'r cyhoedd. [tudalen 59 o Gyf: 6]

2.3.2 Wrth ddatblygu'r Cynllun Rheoli Asedau gwnaed ymdrech hefyd i strwythuro'r ymarfer a chanfod y prif feysydd o ran newid ac angen. Er y bydd gwasanaethau wedi ystyried unrhyw ymgynghoriad penodol (e.e. Addysg mewn perthynas â chynigion i resymoli ysgolion, Eiddo Corfforaethol yn ceisio barn staff am yr adeiladau a'r swyddfeydd), nid yw ymgynghori pellach gyda defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill wedi'i strwythuro eto. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol i arfarniad o'r opsiynau; a'r cyfarwyddiaethau gwasanaethau sy'n gyfrifol am y dasg o ymgymryd â dadansoddiad systematig o'r rhanddeiliaid er mwyn cynyddu mewnbwn i'r broses o reoli asedau.

2.4 Polisi'r Llywodraeth a Chyfrifoldebau Statudol

2.4.1 O'r dadansoddiad o'r datganiadau a ddarperir gan wasanaethau, nodwyd bod rhai gofynion deddfwriaethol a'r gwaith o ddatblygu polisiâu llywodraeth ganolog yn ysgogi newid. Ymhlith y rhain mae:

- Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella
- "Y Wlad sy'n Dysgu" a Deddf Addysg 2002
- Ffyrdd Iach a Gweithgar o Fyw yng Nghymru: Fframwaith ar gyfer Gweithredu 2003
- Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2001
- Isafswm Safonau Cenedlaethol Cymru ar gyfer Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn
- Rhaglen Plant yn Gyntaf
- Cyfarwyddeb Ewropeaidd ar Strategaeth Tirlenwi a Gwastraff 2000 (Cymru a Lloegr)
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "DDA")
- Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd a Diogelwch a Lles) 1992

2.5 Cyd-destun Adnoddau

2.5.1 Wrth reoli ei asedau, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod y rhaglen buddsoddi cyfalaf yn effeithiol o ran ei chyfraniad i gyflawni amcanion corfforaethol a gwasanaeth. Er mwyn gwneud hyn, mae angen strategaeth cyfalaf sy'n darparu arweiniad strategol

clir ar amcanion cyfalaf, blaenoriaethau a chynlluniau gwario. Mae'n rhaid i'r strategaeth a fabwysiedir ymwneud â buddsoddi cyfalaf arfaethedig ym mhob ased, gan gynnwys adeiladau, seilwaith, TG a cherbydau a chyfarpar. Bydd y Cynllun Rheoli Asedau yn ategu'r Strategaeth Gyfalaf hon.

- 2.5.2 Datblygwyd system arfarnu a blaenoriaethu cyfalaf er mwyn sicrhau bod y rhaglen gyfalaf yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol a blaenoriaethau gwasanaethau. Mae'r broses hon yn gorfforaethol, yn wrthrychol ac yn eglur gyda chyfranogiad priodol yr aelodau etholedig. [Atodiad 4]
- 2.5.3 Mae'r Cyngor wedi gwneud ymdrech sylweddol i baratoi fframwaith ar gyfer cynllun ariannol tymor canolig a fydd yn cynorthwyo'r broses gyffredinol o gynllunio/darparu gwasanaethau ac yn gwella gwasanaethau. Gwnaeth y Tîm Rheoli Corfforaethol hyn drwy drafodaethau gan swyddogion ond bu hefyd yn elfen allweddol yr adolygiad sylfaenol o'r gyllideb a gynhaliwyd gan y Cabinet. Yn y gorffennol, gwariwyd tua £3.1M o Gyfalaf a £3.95M o Refeniw yn flynyddol ar ddatblygu gwaith cynnal a chadw. [Cyf: 8]
- 2.5.4 Er y bu'n bosibl nodi'r materion allweddol o ran gwariant, mae'r gallu i ragweld refeniw (ac yn arbennig y lefel o gymorth gan y Cynulliad Cenedlaethol) yn parhau i fod yn anhawster mawr. Mae'r cynnydd o ran hyn wedi darparu barn fwy hyddysg ar fframwaith y gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2004/5 a thu hwnt. Bu disgwyliadau o ran y gwasanaeth yn destun dadl gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet ar y cyd â'r gwaith o ddatblygu rhaglen gyfalaf tymor canolig.
- 2.5.5 Er mwyn blaenoriaethu cynlluniau ar gyfer rhaglen gyfalaf 3 blynedd o 2004/05, sefydlwyd is-grŵp o'r Grŵp Strategaeth Gyfalaf i ystyried cynlluniau a nodwyd fel rhai strategol neu rai â blaenoriaeth uchel arall. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys aelod o'r Cabinet, cynrychiolwyr o'r Adran Cyllid Corfforaethol, yn ogystal â'r Rheolwr Ymchwil Polisi.

3.0 Yr Amgylchedd Allanol Cyfnewidiol a'r Goblygiadau i Eiddo

3.1 E-lywodraeth

- 3.1.1 Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i fanteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir drwy e-lywodraeth fel rhan integredig o'i agenda ar gyfer y dyfodol agos. Bydd natur cyfleusterau sy'n datblygu'n gyflym ac ymagweddau newydd tuag at ddarparu gwasanaeth yn golygu bod adolygiad ac ymgynghoriad parhaus yn angenrheidiol, gan gynnwys ymdrin â'r effaith ar addasrwydd a digonolrwydd yr eiddo. Paratowyd Datganiad IEG (Gweithredu Llywodraeth Electronig) sy'n cynnwys amrywiaeth o brosiectau, gan gynnwys canolfannau "Cwsmeriaid yn Gyntaf" mewn canol trefi, gan alluogi mynediad hawdd gan y cyhoedd. Yn gysylltiedig â'n hymagwedd cwsmeriaid yn gyntaf mae'r posibilrwydd o ganolfan alwadau, tra gallai arferion gwaith newydd olygu goblygiadau i anghenion adeiladau swyddfa. [Cyf 6 - tudalen 52, Cyf: 9]

3.2 Y Farchnad Adeiladau

- 3.2.1 Ar hyn o bryd, nid yw asiantaethau allanol yn cyfrannu'n sylweddol at ddiwallu anghenion y Cyngor o ran adeiladau. Fodd bynnag, mae'n amlwg y daw newid yn sgîl y pwyslais cynyddol ar rôl "galluogwr" a'r duedd tuag at weithio mewn partneriaeth, a gallai'r Cyngor ddod yn llai dibynnol ar gaffael neu ddal eiddo yn uniongyrchol.

3.2.2 Gallwn weld enghreifftiau sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud â'r newid hwn yn y Partneriaeth Rheoli Gwastraff, llety preswyl Gwasanaethau Cymdeithasol ac ysgolion a ariennir drwy'r Fenter Cyllid Preifat.

3.3 Gwasanaethau Eiddo

3.3.1 Darperir y Gwasanaethau Eiddo i'r awdurdod eisoes drwy ymagwedd "economi gymysg" – drwy Gyllid Preifat, Partneru, Dylunio ac Adeiladu, yn ogystal ag ymgynghoriad allanol.

3.3.2 Wrth gynnal Adolygiad o'r Gwasanaethau, mae Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella: Canllawiau i Awdurdodau Lleol yn nodi y dylid gwneud asesiad llawn o'r opsiynau gwasanaeth sydd ar gael, gan gynnwys comisiynu gwasanaethau gan gyrff cyhoeddus eraill a'r sector preifat a gwirfoddol. Mae'r Canllawiau hefyd yn rhestru ffactorau sy'n berthnasol i arfarniad o'r opsiynau ac ystyrir y rhain yn y dadansoddiad o'r gystadleuaeth ar gyfer y gwasanaeth mewnol. Dadansoddir addasrwydd gwasanaethau'r Is-adran Eiddo at ddibenion cystadlu/allanoli yn y Cynllun Gwella Gwasanaethau blynyddol er nad oes ysgogwyr ar gyfer camau gweithredu o'r fath yn bresennol ar hyn o bryd. [Cyf: 10]

3.4 Ysgogwyr Eraill

3.4.1 Nodwyd ysgogwyr amrywiol nad ydynt yn ymwneud â deddfwriaeth ac nad ydynt yn rhan o'r Cyngor sy'n hybu newidiadau, gan gynnwys:

- Arianwyr ac Ariannu – Amcan 1, Grant Gwella Adeiladau Ysgolion, Cronfa Cynlluniau Mawr, Grantiau Adfer Tir Awdurdod Datblygu Cymru, Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy, ac ati,
- Safonau Cenedlaethol y Gymdeithas Meysydd Chwarae
- Arolygiadau ESTYN – Addysg Ieuenctid/yn y Gymuned
- Adroddiadau Arolygiadau Ysgolion ESTYN
- Rhwydwaith y Bobl – Llyfrgelloedd
- Cyd-gynllunio â'r gwasanaethau iechyd
- Partneriaethau Cymunedol ac anghenion y cyhoedd
- Materion yn codi gan aelodau Grwpiau Gorchwyl a Gorffen, Pwyllgorau Craffu, ac ati

4.0 Darparu Gwasanaethau ac Anghenion Adeiladau

4.1 Trosolwg

4.1.1 Er mwyn canfod yr anghenion o ran adeiladau a buddsoddi, paratowyd datganiad neu ganllawiau ar gyfer pob maes gwasanaeth. Nodwyd y rhain mewn ffurflen wedi'i strwythuro er mwyn hwyluso'r broses o arfarnu a dadansoddi bylchau o ran gwybodaeth. Paratowyd crynodeb byr arall fel sail i drafodaethau gan swyddogion ac aelodau ar faterion o bwys mawr, sef y gofynion o ran addasrwydd, digonolrwydd, newid ac adnoddau. [Atodiad 5 a 6]

4.1.2 Yn anochel, wrth ddatblygu ymagwedd fwy strategol, corfforaethol a rhagweithredol tuag at reoli asedau, daw strategaethau manwl i'r amlwg yn raddol. Serch hynny, mae themâu allweddol wedi dod i'r amlwg o ganllawiau gwasanaethau i roi darlun manwl o anghenion adeiladau yn y dyfodol:

- Cyflawni swyddogaethau craidd a chyrraedd safonau/addas at y diben – Addysg, Llyfrgelloedd, Gwasanaethau Cymdeithasol, Parciau, Rheoli Gwastraff
- Rhoi trefn a chyfeiriad i'r portffolio i fodloni disgwyliadau defnyddwyr a chyfleustra mynediad – Datblygu Economaidd, Twristiaeth, Gwasanaethau Cymdeithasol, Swyddfeydd, Addysg Gymunedol, Hamdden a'r Celfyddydau, Gwasanaethau Amwynder Dinesig

4.1.3 Mae'r galw taer i ddiwallu anghenion y cwsmer a'r gymuned drwy aildrefnu buddsoddiadau yn strategol yn amlwg yn yr uchod, a mynegwyd yr angen hwnnw hefyd drwy gynlluniau gwella a chynlluniau busnes. Ar y cychwyn, wrth ystyried y blaenoriaethau ar gyfer dyrannu adnoddau, awgrymir y gallai'r gwasanaethau hynny, ac eithrio ysgolion, yr ystyrir eu bod yn wasanaethau "Sinderela" (e.e. Parciau, Addysg Gymunedol, Llyfrgelloedd, Cyfleusterau Cyhoeddus a Chefn Gwlad) warantu proffil uwch/mwy o fuddsoddiad.

4.1.4 Yn amlwg, nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i ariannu'r holl ofynion o ran adeiladau drwy arian cyfalaf mewnol. Mae Cyllid Preifat eisoes wedi'i fabwysiadu ar gyfer prosiectau Addysg a Phriffyrdd. Yn anochel, bydd angen i'r awdurdod droi at ffynonellau allanol i gynnal y buddsoddiad yn y portffolio a cheisio dulliau eraill i ddiogelu adeiladau, er mwyn ategu darpariaeth uniongyrchol. Caiff mentrau o'r fath eu harchwilio eisoes drwy noddi, datblygu ôl-brydlesu, cyd-fentrau, a llawer iawn o gymorth grant.

4.2 Gwasanaethau'r Cyngor

4.2.1 Mae'r Cyngor wedi croesawu egwyddorion Gwerth Gorau a Chynllun Gwella Cymru, a chynhaliodd adolygiad o'i wasanaethau yn sgîl hynny – yn fewnol ac yn allanol. Mae Adolygiad Cymheiriaid a gynhaliwyd gan dîm o uwch swyddogion ac aelodau o awdurdodau lleol eraill yn ystod 2002 wedi arwain at raglen wella i'r awdurdod cyfan, sef "Datgloi'r Potensial". [Cyf: 5] Mae'r rhaglen hon yn cyfuno amrywiaeth o fentrau yn un pecyn ac mae'n cynnwys pedair elfen:

- Gwasanaethau gwell a gwella gwasanaethau
- Arweinyddiaeth well a gwneud penderfyniadau yn well
- Defnyddio Adnoddau yn well
- Rheoli pobl yn well

4.2.2 O ran y goblygiadau i'r broses o ddarparu gwasanaethau, canolbwyntir yn bennaf ar y cwsmer a'r gwaith o ddarparu pyrth (ffisegol neu electronig) i holl wasanaethau'r cyngor. Daw'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn sgîl cyhoeddi gweledigaeth yr awdurdod, mewn cydweithrediad â'i bartneriaid niferus, ar ffurf Strategaeth Gymunedol. Mae cynllun ariannol tair blynedd newydd wrthi'n cael ei baratoi a fydd yn galluogi gwasanaethau i gynllunio dros gyfnod hwy nag y gallant ar hyn o bryd. Yn ogystal ag ymrwymiad amlwg i'r Cynllunio Rheoli Asedau o fewn Datgloi'r Potensial, ceir ymrwymiad pellach i resymoli prif swyddfeydd y cyngor erbyn 2008.

4.2.3 O bosibl, os bydd y cyngor yn blaenoriaethu "ymgyrchoedd mawr" i ddatrys materion corfforaethol neu gymunedol, efallai y bydd yn rhaid i'r gwasanaethau craidd aros eu tro cyn cael adnoddau. Mae angen taro cydbwysedd rhwng dyluniad, cyflwr ac ansawdd – gan ddarparu adeiladau sydd o fudd i'r gymuned.

4.3 Arferion Gwaith Newydd

- 4.3.1 Mae'r amgylchedd cymdeithasol a thechnolegol y mae'r Cyngor yn gweithredu oddi fewn iddo yn profi cyfnod o newid cyflym. Mae disgwyliadau ffordd o fyw yn mynnu ymagweddau newydd tuag at ddarparu gwasanaethau a threfniadau cyflogi. Bydd mwy o bwyslais ar anghenion y cwsmer yn y cyd-destun hwn yn golygu bod angen newid arferion gwaith – canolfannau gwasanaethau lleol, cyfathrebu a chyflwyno data yn electronig, mynediad hawdd i bawb, amgylcheddau diogel a chynaliadwy.
- 4.3.2 Ar y cyd â newidiadau i'r ffordd y mae'r Cyngor yn rhyngweithio â'r gymuned, bydd yn rhaid iddo ymdrin â'i wasanaeth mewnol a'i arferion cyflogi. Mae'r Grŵp Strategaeth Adnoddau Dynol yn ystyried y goblygiadau a'r potensial i gyflwyno arferion gwaith newydd. Ceir ymrwymtiadau hefyd yng Nghynllun Teithio'r Cyngor, er enghraifft, i leihau'r defnydd a wneir o geir, ystyried darparu cyfleusterau ar gyfer beicwyr ac archwilio'r posibilrwydd o ddarparu cyfleusterau meithrinfa. Er na fydd yr effaith o bosibl yn sylweddol, gellid lleihau'r lle ar lawr a ddefnyddir ar gyfer ffeilio pe bai dulliau amgen ar gyfer storio dogfennau electronig yn cael eu mabwysiadu.

4.4 Asiantaethau Eraill a Darpariaeth ar y Cyd

- 4.4.1 Bu'r Cyngor wrthi'n datblygu cydberthnasau gwaith gydag amrywiaeth o fentrau ar gyfer darparu/defnyddio adeiladau ar y cyd gydag asiantaethau allanol a sefydliadau sector cyhoeddus. Mae hyn wedi cynnwys gweithio'n agos gyda'r Heddlu a'r Bwrdd Iechyd i hwyluso gwasanaethau cymunedol wrth i gyfleoedd godi i waredu adeiladau'r Cyngor. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio gyda'r Grŵp Iechyd Lleol ar nifer o faterion sy'n ymwneud â chynllunio a darparu ar y cyd.
- 4.4.2 Bu partneriaethau cymunedol yn gweithio gyda staff Polisiâu ac Adfywio Cymunedol i nodi materion o ran tir ac eiddo. Mae'r prosiect gan Bartneriaeth Newydd Cymunedau Tredegar yn ymdrin â'r gwaith o ddatblygu ysgol gydag adain gymunedol i hyrwyddo dysgu gydol oes a chymorth i ddisgyblion, ac mae'n ymgorffori heddlu, canolfan byw'n iach, llyfrgell, caffi'r rhyngrwyd, ystafelloedd cyfarfod a swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Bwriedir cael adeilad cymunedol i'r Coed Duon a fydd yn darparu gwasanaethau aml-asiantaeth hygyrch yng nghanol y dref. Ymhlith y trefniadau a wnaed gydag awdurdodau lleol cyfagos mae cyfleusterau cefn gwlad, ac adeiladau ar gyfer Tîm Dyletswydd Frys Gwent Gyfan.

5.0 Gofynion yn y Dyfodol

- 5.1.1 Mae'n rhaid i'r broses o reoli asedau adlewyrchu gweledigaethau corfforaethol y Cyngor a hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Mae'r Cynllun Cymunedol a'r broses o ddatblygu gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol wrth bennu strategaeth, tra dylid rhoi digon o sylw hefyd i flaenoriaethau allweddol y gwaith o adfywio a chynnal a chadw asedau cymunedol. Ar hyn o bryd, nid yw asiantaethau allanol yn cyfrannu'n sylweddol at ddiwallu anghenion y Cyngor, ond daw newid yn sgîl y pwyslais cynyddol ar rôl "galluogwr" a'r duedd tuag at weithio mewn partneriaeth.
- 5.1.2 Mae canllawiau gwasanaethau wedi darparu sail i swyddogion ac aelodau ystyried y materion o bwys mawr sy'n ymwneud ag addasrwydd a digonolrwydd. Daeth themâu allweddol i'r amlwg o ran cyflawni swyddogaethau craidd, cyrraedd safonau/addasrwydd at y diben, a rhoi trefn a chyfeiriad i'r portffolio i fodloni disgwyliadau defnyddwyr. Bu materion o'r fath yn destun dadl ar lefel uchel ac mae cynllunio ariannol tymor canolig wedi darparu barn fwy hyddysg ar fframweithiau cyllidebau referniw a chyfalaf. Er mwyn diwallu anghenion y cwsmer a'r gymuned, mae'n rhaid aildrefnu buddsoddiadau yn strategol. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i ariannu gwelliannau yn y dull traddodiadol a bydd yn rhaid ymestyn yr ymagwedd "economi gymysg" yn sgîl hynny.

- 5.1.3 Paratowyd Rhaglen Gyfalaf 2004/5 o fewn cyd-destun y wybodaeth sydd ar gael hyd yma, ac mae'n gam tuag at aildrefnu buddsoddiadau yn y dyfodol. Dim ond arfarniad interim a ganiatawyd gan y terfynau amser, ac mae'n amlwg bod yn rhaid gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y Cynllun Rheoli Asedau yn ffurfio trosolwg cadarn yn y dyfodol er mwyn llywio'r Strategaeth Gyfalaf a darparu sail ar gyfer penderfyniadau cadarn yn ymwneud â buddsoddi. Byddai'n anghyfrifol ymrwymo arian heb ystyried perfformiad y portffolio a'r disgwyliadau hirdymor ar ei gyfer.
- 5.1.4 Daw'r ffigurau ar gyfer yr angen i fuddsoddi, sy'n ymwneud â chyflwr ac addasrwydd adeiladau at y diben, i gyfanswm o tua £200m. Ysgolion (£70m o ddiffyg gan gynnwys DDA) a swyddfeydd corfforaethol (£25m) sydd angen y symiau mwyaf o arian, ynghyd â gofynion cydymffurfio eraill DDA (£13m heb gynnwys Addysg). Gan ystyried y cyfle ar gyfer ariannu allanol neu drefniadau ariannol eraill, mae'n amlwg bod angen dod o hyd i dros £150m o hyd.
- 5.1.5 Nodir Rhaglen Gyfalaf 2004-5, a ddatblygwyd gan y Grŵp Strategaeth Gyfalaf, yn Atodiad 12. Wrth baratoi'r rhaglen, roedd yn ofynnol i noddwyr prosiectau gwblhau'r Ffurflenni Blaenoriaethu Prosiectau Cyfalaf [Atodiad 4] ac roeddent yn sail i'r broses a arweiniodd at yr egwyddorion canlynol:
- Arian er mwyn i gynlluniau ymrwymedig (naill ai ymrwymadau cytundebol neu'r cynlluniau hynny a gymeradwywyd eisoes) barhau.
 - Rhoi blaenoriaeth uchel i'r broses o gyfrannu at gyflawni nodau ac amcanion corfforaethol y Cyngor a darparu gwasanaethau craidd (Addysg, Priffyrdd a Thai).
 - Dylid dechrau cyfeirio arian tuag at wella seilwaith adeiladau a phriffyrdd presennol y cyngor (yn amodol ar ystyried yr holl opsiynau ymlaen llaw cyn dyrannu i eiddo penodol).
 - Bydd arian ar gael i barhau i ymdrin â materion lechyd a Diogelwch a materion hygrychedd, gan ystyried yn arbennig ofynion DDA a'r dull o reoli asbestos.
 - Parheir i sicrhau bod arian ar gael (yn bennaf ar gyfer arian cyfatebol) er mwyn gwella'r amgylchedd trefol a gwledig lleol.
- 5.1.6 Wrth baratoi'r rhaglen, neilltuwyd swm o £1m i'w ddyrannu yn ôl disgrisiwn y Swyddog Eiddo Corfforaethol ar gyfer gwaith a nodwyd drwy'r broses Cynllunio Rheoli Asedau. Dewiswyd y gwaith hwn am ei fod o fudd arbennig wrth wella cyflwr neu addasrwydd yr ystad bresennol. Bydd angen i wasanaethau ddangos strategaeth glir a chynnal adolygiad o eiddo'r gwasanaeth/ymarfer rhesymoli er mwyn sicrhau y caiff arian wedi'i glustnodi ei ddyrannu mewn dull pwrpasol ac wedi'i flaenoriaethu yn y dyfodol. Wrth i'r stoc wella, efallai y bydd newid yn y blaenoriaethau o ran dyrannu arian o fewn y Rhaglen Gyfalaf.

5.1.7 Ar gyfer 2004/5 gellir crynhoi'r dyraniad Cyfalaf fel:

	£m
Cynlluniau Ymrwymedig	5.20
Blaenoriaethau Strategol (Newid demograffig o ran addysg, gwella'r ddarpariaeth o ran llyfrgelloedd, gwasanaethau hamdden a'r gymuned, rheoli asedau)	4.55

Blaenoriaethau Uchel
(Diogelwch ysgolion, datblygu economaidd, adnewyddu tai,
e-lywodraeth, priffyrdd)

4.00

Cyfanswm

£13.75m

- 5.1.8 Mae ymagwedd ragweithredol a chadarn tuag at nodi eiddo nad oes ei angen ac mae graddfa hynny yn un o elfennau allweddol strategaeth gyfalaf effeithiol. Mae gan yr awdurdod gofnod o'i weithgareddau gwaredu, a thrwy adolygiadau blaenorol o eiddo mae llawer o safleoedd arwyddocaol wedi'u gwerthu neu yn y broses o gael eu gwerthu. Disgwylir, yn amodol ar adolygiad agosach o'r portffolio, i dderbyniadau cyfalaf o tua £1m y flwyddyn gael eu cynhyrchu ar gyfer y dyfodol agos. Ar ôl i ragor o ddata ar ddefnyddio eiddo gael ei gasglu, gellid canolbwyntio o'r newydd ar gyfleoedd, a choethi'r targed ar gyfer derbyniadau.
- 5.1.9 Ymhlith y mentrau corfforaethol mae materion "cydraddoldeb", ac yn benodol, cynnig i greu swydd ar gyfer Swyddog Mynediad. Mae'r swydd yn angenrheidiol nid yn unig i ddarparu cyngor i wasanaethau ond i ddatblygu strategaeth DDA hefyd a fydd yn llywio penderfyniadau ar ddyrannu arian cyfalaf. Mae gan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd oblygiadau sylweddol i addasrwydd eiddo, a bydd ystyriaethau o'r fath yn anochel yn ymddangos yn yr arfarniadau o'r opsiynau ac yn dylanwadu'n fawr ar benderfyniadau o ran rheoli asedau yn y dyfodol. Yn yr un modd, gellir defnyddio data ar reoli asedau i nodi blaenoriaethau ar gyfer dyrannu cyfalaf a rhaglenni gwaith ar gyfer iechyd a diogelwch (gan gynnwys cael gwared ar asbestos).

6.0 Y Portffolio Eiddo Presennol a Pherfformiad

6.1 Y Portffolio

6.1.1 Dyrannwyd llawer o'r eiddo a ddelir gan gyfarwyddiaethau gwasanaethau yn sgîl trosglwyddo cyfrifoldebau ar ôl Aildrefnu Llywodraeth Leol yn 1996. Nid yw'r cyfan o reidrwydd yn ymwneud â gofynion gweithredol cyfredol, ac mewn rhai achosion, delir yr eiddo drwy amgylchiadau caffael neu ddibenion canfyddedig yn hytrach nag unrhyw ddefnydd gwirioneddol a wneir ohono. Derbyniwyd egwyddorion Cynllunio Rheoli Asedau, a gefnogir gan argymhellion Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adolygiad Cymheiriaid y Cyngor, Cyd-adolygiad o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, adroddiadau ESTYN, ac ati, a chytunwyd ar weithdrefnau ar gyfer dal, dosbarthu a rheoli eiddo. Ceir rhagdybiaeth bellach y bydd eiddo a ddelir gan gyfarwyddiaethau gwasanaethau at ddibenion gweithredol yn unig. Ar ôl penderfynu bod eiddo yn anweithredol, bydd cyfarwyddiaethau gwasanaethau yn ceisio trosglwyddo'r eiddo hwn i'r Is-adran Eiddo. [Atodiad 7]

6.1.2 Delir yr eiddo gan y meysydd gwasanaeth fel a ganlyn [Rhestr lawn yn Atodiad 8]:

Maes Gwasanaeth	DARPARIAETH GWASANAETH UNIONGYRCHOL		SWYDDFEYDD	
	Safleoedd	Adeiladau	Safleoedd	Adeiladau
Datblygu Economaidd a Thwristiaeth	6	9		
Addysg – Ysgolion	98	352		
Y Celfyddydau a Chanolfannau Hamdden	12	13		

Canolfannau Cymunedol	44	45		
Parciau, Pafiliynau ac Ystafelloedd Newid	65	81		
Addysg Gymunedol / Canolfannau Ieuenctid	22	29		
Llyfrgelloedd	20	21		
Gwasanaethau / Cyfleusterau Cyhoeddus	21	21		
Profedigaeth / Adeiladau Mynwentydd	10	21		
Gwasanaethau Cymdeithasol	29	36	11	12
Depos / Gweithdai	10	23		
Cefn Gwlad / Cynllunio	5	7		
Swyddfeydd Corfforaethol a Phrif Swyddfeydd			8	29
Tai a Swyddfeydd Arian Parod			10	16
Ceginau / Arlwyo Pryd ar Glud	16	19		
Gweithredol Amrywiol	4	8		

	GWASANAETH ANUNIONGYRCHOL AC EIDDO ANWEITHREDOL	
	Prydleswyd	Eiddo nad oes ei angen
Ystadau Diwydiannol a Pharciau Busnes	12 Safle	-
Gwasanaeth Arall a Ddelir ac Anweithredol	29 Adeilad	28 Adeilad

6.1.3 Casglwyd data ar gyfer 799 o adeiladau (422 o sefydliadau) a dadansoddwyd y data i ddarparu datganiad o gyflwr ac addasrwydd [Rhestr lawn yn Atodiad 9] o fewn y categorïau canlynol:

Cyflwr

- A – Da
- B – Boddhaol
- C – Gwael, yn dangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithio fel y'i bwriadwyd
- D – Gwael iawn, oes yr adeilad wedi dod i ben a/neu risg ddifrifol o fethiant yn fuan

Addasrwydd

Mae addasrwydd yn ymwneud â pha mor dda y mae'r eiddo yn diwallu anghenion defnyddwyr y gwasanaeth ac yn cyfrannu at wella'r gwasanaeth, neu mae'n "eiddo sy'n addas at y diben"

- A – Addas
- B – Ddim yn gwbl addas, gellir ei wella
- C – Nid yw'n gwbl addas, ni ellir ei wella
- D – Anaddas

Categori'r Cyflwr	Nifer yr Adeiladau
A	158
B	414

Pa mor Addas ydyw	Nifer yr Adeiladau
A	118
B	365

C	92
D	6
Ni Chynhaliwyd Arolwg	129

C	145
D	41
Nis Dychwelwyd	130

Categori'r Cyflwr	Gweithredol	
	Uniongyrchol	Swyddfeydd
A	142	15
B	389	17
C	66	23
D	5	0

Pa mor Addas ydyw	Gweithredol	
	Uniongyrchol	Swyddfeydd
A	92	23
B	347	17
C	132	13
D	38	0

- 6.1.4 Drwy archwilio system gyfrifo gorfforaethol y Cyngor, "OLAS", cafwyd trosolwg o'r costau rhedeg. Ar hyn o bryd, y cyfan y mae'r symiau yn ei ddangos yw nad yw'r system yn cofnodi'r holl wariant dirprwyol, ac nad yw'r broses o godio taliadau yn hollol gywir.

Maes Gwasanaeth	Gwariant Refeniw yn Gysylltiedig ag Eiddo 2002/3 £
Datblygu Economaidd a Thwristiaeth	560,491
Cyllid Corfforaethol/TG/Caffael	223,588
Ysgolion	5,743,481
Addysg Gymunedol	388,139
Hamdden	641,837
Parciau	102,996
Llyfrgelloedd	191,150
Addysg Arall a Hamdden	2,193,936
Amgylchedd – Cynllunio, Eiddo, Iechyd Amgylcheddol, ac ati	950,137
Gwasanaethau Cymdeithasol	2,736,110
Defnyddwyr Corfforaethol a Defnyddwyr Lluosog Eraill	1,281,960
Cyfanswm Gwariant Refeniw yn Gysylltiedig ag Eiddo	£15,013,825

- 6.1.5 Ar hyn o bryd, mae asedau cyfalaf eiddo tua £281.4m. Yn ogystal, mae gan y Cyngor asedau tai a seilwaith sy'n dod i gyfanswm o £185.5m a £112.5m.

Math o Eiddo	Gwerth Asedau ar 31/03/03 £
<u>Gweithredol</u>	
Ysgolion	139,508,618
Canolfannau Cymunedol a Chanolfannau Ieuenctid	10,108,425
Llyfrgelloedd	2,834,268

Canolfannau Chwaraeon, Pyllau Nofio a Chanolfannau Hamdden	29,677,930
Twristiaeth	6,435,972
Depos/Gweithdai	3,914,842
Swyddfeydd/Adeiladau Gweinyddol	6,732,946
Cartrefi Gwasanaethau Cymdeithasol	8,521,716
Canolfannau Dydd Gwasanaethau Cymdeithasol	4,794,138
Gweithredol Arall	30,712,650
Cyfanswm Gwerth Asedau - Gweithredol	243,241,505
Unedau Diwydiannol	13,500,813
Eiddo Anweithredol	24,683,789
Cyfanswm Gwerth Asedau	281,426,107

- 6.1.6 Rhoddwyd data a gasglwyd mewn perthynas â chyflwr, costau rhedeg a chostau cyfleustodau ar ddwy system cronfa ddata briodol "Evolution" a "Team". Bu'r wybodaeth a dderbyniwyd yn destun broses graffu ac fe'i dilyswyd drwy ei herio. Cafodd gwybodaeth amheus ar arolygon ei hailwirio a, lle y bo'n briodol, ei chywiro. O'r adroddiadau ar yr arolygon, bu'n bosibl diweddarau'r wybodaeth "Terrier" i gynnwys trefniadau rheoli sydd wedi newid, dymchweliadau, strwythurau dros dro ac adeiladau newydd nas cofnodwyd o'r blaen. Cafodd peth o'r data o'r arolygon ei ddal yn ôl a bydd rhaid edrych arno eto yn ystod 2004/5 pan fydd adnoddau arolygu ar gael at ddibenion gwirio.
- 6.1.7 Gwnaed dadansoddiad bwlch o ffurflenni darllen mesuryddion cyfleustodau, a thrwy ymyrraeth y Tîm Rheoli Corfforaethol, rhoddwyd pwysau ar reolwyr eiddo i ddarparu'r wybodaeth sydd ar goll. Bu dadansoddiad bwlch safle wrth safle o'r wybodaeth rheoli asedau yn bosibl, ond ar lefel fanwl ni fydd yn bosibl dod o hyd i ddata sydd ar goll o feysydd unigol nes i gyflenwyr y feddalwedd ddiweddarau'r system.
- 6.1.8 Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol wedi cytuno ar ymagwedd newydd i adolygu prosiectau gyda grŵp lefel uchel yn gweithredu er mwyn darparu "cyngor arbenigol" ar gaffael gwaith adeiladu i'r Cyngor a'i swyddogion sy'n gleientiaid. Cyfarwyddwr yr Amgylchedd, fel hyrwyddwr "Ailfeddwl am Adeiladu" y Cyngor, fydd yn cadeirio'r grŵp a fydd yn gweithio'n agos gyda phobl a sefydliadau eraill sy'n gyfrifol am strategaeth gyfalaf a gwerth gorau. Cadeirydd y grŵp sydd â'r awdurdod i fynnu bod prosiectau â gwerth contract sy'n fwy nag £1 filiwn yn cael eu "galw i mewn" i'w hadolygu ar unrhyw adeg.

6.2 Swyddogaeth Rheoli Asedau

- 6.2.1 Y Prif Swyddog Cynllunio (a enwebwyd yn "Swyddog Eiddo Corfforaethol" y Cyngor at y diben) sy'n gyfrifol am ddarparu'r Cynllun Rheoli Asedau. Er mwyn darparu'r awdurdod a'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni ei gyfrifoldebau, mae'r Prif Swyddog Eiddo mewn perthynas â rheoli asedau yn cyflwyno adroddiadau i'r Prif Weithredwr ac yn uniongyrchol atebol iddo. Nodir cyfrifoldebau penodol y Swyddog Eiddo Corfforaethol fel a ganlyn:

- Hwyluso'r gwaith o ddatblygu ymagwedd fwy corfforaethol tuag at reoli eiddo.
- Aseu, ystyried a chymhwyso'r ysgogwyr corfforaethol ar gyfer newidiadau yn y dyfodol.

- Rheoli'r broses o gynllunio rheoli asedau, a gwneud hynny mewn dull strategol, gan gynnwys defnyddio gwagle, asesu gweithredoedd y dyfodol a datblygu rhaglenni.
 - Sicrhau bod costau bywyd cyfan yn cael eu hadlewyrchu yn y penderfyniadau o ran eiddo referniw a chyfalaf.
 - Rhoi dangosyddion perfformiad ar waith.
 - Sicrhau bod gwybodaeth sylfaenol am yr asedau a ddelir, a'u cyflwr, ar gael.
- 6.2.2 Mae Grŵp Rheoli Asedau a arweinir gan y Prif Swyddog Eiddo yn cynnwys uwch aelodau o staff o adrannau canolog ac adrannau gwasanaeth – Eiddo, Cyllid, Cynllunio, Polisi, Addysg a Hamdden, Gwasanaethau Cymdeithasol, Datblygu Economaidd, a Thai. Maent yn sicrhau mewnwelediad i wasanaethau unigol y cyngor, dealltwriaeth o nodau ac amcanion corfforaethol a gwybodaeth ddigonol o eiddo a'i faterion cysylltiedig. Y Cylch Gorchwyl yw:
- Adolygu rolau a chyfrifoldebau gwasanaethau a rhai corfforaethol
 - Hyrwyddo'r gwaith o baratoi'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol
 - Datblygu a chyflwyno mesurau/dangosyddion perfformiad eiddo ar draws portffolio'r Cyngor
 - Casglu data ar eiddo cysylltiedig a chyflwyno gwybodaeth ar systemau rheoli gwybodaeth
- 6.2.3 Yn y Cabinet, cyfrifoldeb y Dirprwy Arweinydd yw Rheoli Asedau gyda'r portffolio ar gyfer "Adnoddau". Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen o aelodau o Bwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau yn ystod 2003 i ystyried y Cynllun Rheoli Asedau drafft ac mae wedi adolygu:
- Anghenion disgwyltiedig yr eiddo yn y dyfodol, a nodi unrhyw fylchau, eiddo nad oes ei angen, addasiadau neu anghenion corfforaethol eraill.
 - Y strategaeth asedau, amcanion eiddo a dulliau o gyflenwi arfaethedig.
 - Rolau a chyfrifoldebau o ran y portffolio eiddo.
 - Y broses gwneud penderfyniadau o ran y cynllun rheoli asedau.
- 6.2.4 Mae'r Grŵp Strategaeth Gyfalaf yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Eiddo Corfforaethol a'r Grŵp Rheoli Asedau. Rhoddwyd system ffurfiol i arfarnu a blaenoriaethu prosiectau cyfalaf ar waith sy'n sicrhau bod gwariant yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol a blaenoriaethau gwasanaethau. Mae'r dull o weithredu yn gorfforaethol, yn eglur ac yn amlwg a gellir ei gymhwyso ar draws yr awdurdod i bob ased. Cynhwysir manylion y broses gwneud cynnig, asesiad yn erbyn meini prawf cytûn, argymhelliad y rhaglen gyfalaf i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ac aelodau (drwy bwyllgorau craffu cyn eu cyfeirio i'r Cabinet a'r Cyngor) yn yr atodiad. [Atodiad 4]
- 6.2.5 Mae Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r Is-adran Eiddo reoli tir ac adeiladau'r Cyngor heblaw tir ac adeiladau a ddefnyddir yn weithredol gan wasanaethau'r Cyngor. Ar ben hynny, ceir gofyniad penodol i gynnal adolygiadau o eiddo ar y cyd â chyfarwyddiaethau gwasanaethau a nodi eiddo nad oes ei angen er mwyn ei waredu. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi mai'r Prif Swyddog Eiddo fydd yn gyfrifol yn gyffredinol am reoli ystad y Cyngor yn *strategol*. [Cyf: 11]
- 6.2.6 O ran rolau rheoli eiddo ar draws yr awdurdod, cytunodd y Tîm Rheoli Corfforaethol ym mis Medi 2002 ar briod gyfrifoldebau'r Prif Swyddog Eiddo a'r cyfarwyddiaethau

gwasanaethau. Cyflwynwyd protocol i Benaethiaid Gwasanaethau yn nodi rôl yr Is-adran Eiddo, cyfrifoldeb dros Reoli Eiddo, a'r weithdrefn ar gyfer trosglwyddo tir ac adeiladau anweithredol. [Atodiad 10] Roedd y protocol yn crynhoi cyfrifoldebau strategol y Prif Swyddog Eiddo fel a ganlyn:

- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar gyflwr, digonolrwydd, addasrwydd a defnyddio'r asedau a ddelir.
- Rheoli'r broses o Gynllunio Rheoli Asedau a sicrhau y caiff materion pwysig yn ymwneud ag eiddo eu hystyried yn gorfforaethol cyn gwneud penderfyniadau.
- Cynghori ar lefelau buddsoddiadau eiddo referniw a chyfalaf.
- Rhoi dangosyddion perfformiad [*adeiladu*] eiddo ar waith.
- Sicrhau bod y gwaith o reoli gwasanaethau yn weithredol yn gyson â nodau ac amcanion eiddo corfforaethol, yn effeithlon ac yn ddarbodus.
- Rheoli a goruchwyllo'r broses derbyniadau cyfalaf.

6.2.7 O fewn yr Is-adran Eiddo, crëwyd tîm bach o staff ymroddedig i ategu'r gwaith o ddatblygu Cynllun Rheoli Asedau'r awdurdod, adolygu daliadau eiddo, a darparu cyngor strategol ar eiddo. Drwy ddefnyddio arian a oedd ar gael diolch i Lywodraeth Cynulliad Cymru, cafwyd meddalwedd rheoli asedau er mwyn dal ac ymchwilio i ddata ar eiddo, a chynhaliwyd rhaglen o arolygon ar gyflwr eiddo. Mae data a fewnbynnir gan staff mewn nifer o gyfarwyddiaethau yn cael ei gydlynu gan yr Is-adran Eiddo a chefnogir y gwaith hwn ymhellach gan gyflenwr y feddalwedd.

6.2.8 Er mwyn sicrhau cysondeb a chymorth, mae'r Cynllun wedi'i ddatblygu o fewn cyddestun Fforymau Ardal a phartneriaethau cymunedol. Paratowyd datganiad o faterion priodol yn ymwneud â thir ac eiddo cymunedol ac fe'i defnyddiwyd fel rhestr wirio yn erbyn mentrau a materion a nodwyd gan Gyfarwyddiaethau Gwasanaethau er mwyn sicrhau ymagwedd gynhwysfawr a hollgynhwysol. Yn ystod 2003, edrychodd yr Is-adran Eiddo ar ganllawiau a baratowyd yn 2002 unwaith eto er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac er mwyn eu cymharu â chynigion cyfalaf i sicrhau bod yr holl brosiectau a newidiadau a nodwyd wedi'u cynnwys yn y dogfennau sy'n ategu'r Cynllun Rheoli Asedau. Pan fydd angen, mae'r tîm sy'n paratoi'r Cynllun o fewn yr Is-adran Eiddo yn herio ymatebion ac yn ymchwilio i ddata pan fydd anomaleddau yn amlwg neu'n anghyflawn.

7.0 Adolygiad a Her

7.1 Dadansoddiad Bwlch

7.1.1 Mae cyflwr ac addasrwydd stoc adeiladau'r Cyngor wedi'i asesu a'i gategoreiddio. Y prif gasgliadau y daethpwyd iddynt yn sgîl yr ymarfer hyd yma yw:

- Mae angen cryn fuddsoddiad yn yr ystad er mwyn sicrhau ei bod yn cyrraedd cyflwr derbyniol, yn fwy addas at y diben ac yn gallu ategu cynigion cyfredol ar gyfer datblygu gwasanaethau. Cyfanswm y buddsoddiad sydd ei angen yw tua £200m. Y gofyniad net, heb gynnwys ariannu allanol posibl ac ariannu mewnol a nodwyd, yw tua £150m. [Atodiad11]
- Ysgolion y cyngor (£70m o ddiffyg gan gynnwys DDA) a swyddfeydd corfforaethol (£25m) sydd angen y symiau mwyaf o arian ynghyd â gofynion cydymffurfio'r ystad â DDA (£13m heb gynnwys Addysg).

- Rhannau tlotaf yr ystad o ran eu cyflwr a'u haddasrwydd at y diben yw ysgolion, canolfannau ieuencid a chymunedol, llyfrgelloedd, pafiliynau a thai bach cyhoeddus.
- 7.1.2 Ar adeg paratoi'r cynllun hwn, nid oedd goblygiadau ariannol llawn y Cyngor yn dilyn cyflwyno'r Cod Ariannol Darbodus ar gyfer proses reoli ariannol awdurdodau lleol y flwyddyn nesaf wedi'u hasesu'n llawn. Yr awgrymiadau cychwynol yw y bydd uchafswm o £13m o arian cyfalaf ar gael y flwyddyn dros y pum mlynedd nesaf, ar yr amod bod derbyniadau cyfalaf o £1m y flwyddyn yn cael eu cynhyrchu. Fodd bynnag, mae angen y £13m nid yn unig i ymdrin â'r buddsoddiad o £150m sydd ei angen ar gyfer eiddo, ond hefyd er mwyn ariannu'r rhaglen gyfalaf ar gyfer tai nad ydynt yn rhai cyhoeddus, gwella seilwaith y priffyrdd a'r amgylchedd, datblygu TG (gan gynnwys e-lywodraeth) ac anghenion cyfalaf eraill. O ganlyniad, mae'n amlwg y bydd angen ystyried ffynonellau eraill o arian er mwyn gwneud cynnydd ystyrlon wrth fynd i'r afael â'r "bwlch mewn buddsoddi".
- 7.1.3 Yn sgîl y newidiadau cyfrifo diweddar i adlewyrchu'r addasiad cymudo, mae balansau'r Cyngor wedi cynyddu £20m. Nid oes arian wrth gefn ar gyfer hyn, a byddai angen codi benthyciadau pe bai'r arian yn cael ei ddefnyddio. Mae'r Cabinet wedi cytuno y dylid datblygu strategaeth ar wahân yn hyn o beth yn seiliedig ar ddefnyddio'r rhan fwyaf o'r arian i ategu'r rhaglen gyfalaf.
- 7.1.4 Er gwaethaf argaeledd yr arian achlysurol y cyfeirir ato uchod, mae'n amlwg, gyda "bwlch ariannu" o tua £150m, na ellir sicrhau bod yr ystad yn cyrraedd safon dderbyniol er mwyn "...darparu amgylchedd bywyd a gwaith diogel, cynaliadwy a hygyrch i bob defnyddiwr". [Polisi Asedau Corfforaethol – Atodiad 2] drwy ddefnyddio arian mewnol yn unig.
- 7.1.5 O ganlyniad, mae'n hanfodol cynnal arfarniadau lefel uchel o'r opsiynau darparu gwasanaethau a'r gofynion o ran adeiladau, gan gwmpasu ystad gyfan y Cyngor. Drwy gynnal yr arfarniadau hyn, bydd rhesymoli'r ystad yn ddiau yn fater pwysig er mwyn i'r Cyngor weithio tuag at gyrraedd ei amcan rheoli asedau, sef cael ystad o'r maint gorau posibl.
- 7.1.6 Bydd yr ymarfer hwn yn sail i'r gwaith o ddatblygu strategaeth ar gyfer buddsoddi a rheoli asedau corfforaethol yn y tymor canol a'r tymor hir, y mae'r Cyngor yn bwriadu ei rhoi ar waith yn ystod blwyddyn ariannol 2004/5. O ganlyniad, cydnabyddir y bydd angen adolygu rhaglen gyfalaf 3 blynedd y Cyngor yn sylfaenol yn ystod 2004/5 i sicrhau ei bod yn gyson â'r strategaeth fuddsoddi gorfforaethol, ac yn ei hategu.
- 7.1.7 Bydd angen casglu gwybodaeth am y defnydd o'r eiddo, y costau rhedeg a'r prisiad, a sicrhau bod y wybodaeth honno ar gael er mwyn ategu'r broses gwneud penderfyniadau allweddol hon.
- 7.1.8 Ymhlith y materion penodol a nodwyd gan aelodau i'w hystyried mae:
- Y potensial i Ganolfannau Hamdden ddarparu adeiladau ar gyfer defnydd mwy cyffredinol gan y cyhoedd, yn amodol ar ymdrin â'r cyflwr
 - Atgyfnerthu'r trefniadau rhwng cyrff llywodraethu a sefydliadau cymunedol er mwyn defnyddio tir ac adeiladau Ysgolion ar gyfer swyddogaethau chwaraeon a chymunedol lleol.
 - Materion sy'n ymwneud â mynediad cyhoeddus i gaeau ysgolion at ddibenion hamdden anffurfiol.

7.2 Adolygu Strategaeth, Amcanion a Dulliau Cyflenwi

- 7.2.1 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, talwyd sylw manwl i'r gwaith o ariannu mentrau drwy'r Cyngor. Fodd bynnag, mae ffynonellau fel Amcan 1 yn rhai dethol ac nid ydynt yn cynorthwyo gwasanaethau fel Tai, Addysg neu Briffyrdd. Mae'n rhaid i'r Cyngor ddatblygu'r defnydd o bartneriaeth a'r sector gwirfoddol er mwyn denu arian. Mae'n rhaid cael trosolwg corfforaethol gyda phenderfyniadau o ran buddsoddi yn cael eu hysgogi gan anghenion y gymuned ac nid gwasanaethau sy'n cystadlu.
- 7.2.2. Mae symud tuag at gyllidebau wedi'u dirprwyo, ac yn arbennig arian ysgolion a reolir yn lleol, yn golygu y gellir dal cronfeydd wrth gefn sylweddol. Yn dilyn argymhellion gan y Comisiwn Archwilio, bydd yr awdurdod yn edrych ar falansau wedi'u clustnodi, tanwariant pwyllgorau ac yn ceisio sefydlu proses gofnodi fwy trwyadl ar falansau. Mae Adolygiad Gwerth Gorau ar Gaffael yn ystyried y defnydd o adnoddau gan ysgolion. [Cyf: 8]
- 7.2.3 Gall anghenion amrywio o gymuned i gymuned ac mae'n hanfodol y dylid ystyried y defnydd o adeiladau yn fanwl. Gallai hyn arwain at fanteisio i'r eithaf ar ddefnyddio adeiladau penodol a thuedd i ddyrannu cyfalaf i wella adeiladau sy'n bodoli eisoes yn hytrach na chodi adeiladau newydd. O ystyried goblygiadau adnoddau ymhellach, ni fydd datblygu adeiladau sy'n addas at y diben yn creu buddiannau mawr oni chânt eu haddasu i gynnwys yr offer sydd ei angen ar gyfer y gweithgareddau a fydd yn digwydd yno.
- 7.2.4 Mewn sawl achos, trosglwyddwyd y gwaith o weithredu adeiladau cymunedol i bwyllgorau rheoli. Nid yw hyn bob amser yn effeithiol am fod sgiliau a chymhelliant yr unigolion sydd ar y pwyllgor yn chwarae rhan annatod yn llwyddiant y dull o weithredu. Efallai y byddai asiantaethau eraill fel Cynghorau Cymunedol yn fwy effeithiol wrth gynyddu'r defnydd o'r adeiladau. Amgylcheddau hygrych, aml bwrpas mewn cyflwr da sy'n gwasanaethu amrywiaeth eang o ddiddordebau yw'r model delfrydol.
- 7.2.5 Mae'r gyfundrefn ariannu darbodus yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Gynghorau wrth gyflenwi rhaglenni drwy ganiatáu i gyfalaf na chaiff ei wario gael ei gario ymlaen i'r dyfodol. Bydd hyn yn caniatáu mwy o amser i gynllunio rhaglenni gwaith, a ddylai, yn eu tro, arwain at fuddsoddi mwy effeithiol ac effeithlon yn yr ystad. I ddechrau'r broses hon, bydd yn rhaid i wasanaethau sy'n gyfrifol am gyflenwi prosiectau o dan y dyraniadau cyffredinol roi digon o wybodaeth i'r Grŵp Strategaeth Gyfalaf i ddangos yn glir y modd y bydd eu cynigion yn effeithio ar effeithiolrwydd a/neu effeithlonrwydd y gwasanaethau.

7.3 Adolygu Rolau a Chyfrifoldebau

- 7.3.1 Mae Swyddog Eiddo Corfforaethol y Cyngor a'r Is-adran Eiddo wedi cymryd yr awenau wrth gasglu data datblygu'r Cynllun Rheoli Asedau cyntaf hwn. Mae cyfarwyddiaethau gwasanaethau wedi cyfranogi'n fawr ac ymgynghorwyd â hwy yn llawn. Fodd bynnag, mae llwyddiant wrth weithredu'r Cynllun y tu hwnt i gymeradwyaeth gorfforaethol yn dibynnu'n fawr ar ymrwymiad y cyfarwyddiaethau unigol a rheolwyr y gwasanaethau. Bydd angen i'r awdurdod, drwy ei Bwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ac Adolygiadau Gwerth Gorau, adolygu'r cynnydd a phennu unrhyw newid pwyslais neu gylch gwaith yn y dyfodol a fydd yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r canlyniadau strategol a ddymunir.
- 7.3.2. Mae'n rhaid i aelodau ystyried mabwysiadu swyddogaeth graffu ragweithredol o ran Cynllunio Rheoli Asedau. Maent yn cydnabod y risg o fabwysiadu safbwynt tymor byr a datrysiadau tymor byr. I ryw raddau gallai'r Cynllun fod yn uchelgeisiol, ond yn angenrheidiol er mwyn manteisio ar weithredu amserol. Disgwylir i'r Cynllun fod yn

arloesol ac mae'n amlygu materion a fydd yn parhau ac y bydd angen mynd i'r afael â hwy er gwaethaf newidiadau o ran aelodau neu arweinyddiaeth wleidyddol. Dylid sicrhau bod cynghorwyr newydd yn cael eu briffio a'u gwneud yn ymwybodol o'r broses a'r Cynllun Rheoli Asedau.

7.4 Adolygu'r Broses o Wneud Penderfyniadau

- 7.4.1 Fel yr amlygwyd eisoes, mae'n rhaid i Gyfarwyddiaethau Gwasanaethau ddatblygu **dadansoddiad systematig o randdeiliaid** a sicrhau y cânt eu cynnwys yn y broses o reoli asedau er mwyn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud yn gwbl hyddysg. Mae'r gallu i ddefnyddio Fforymau Ardal a Phartneriaethau Cymunedol yn fanteisiol, ond byddai'n ddymunol datblygu trafodaeth ehangach ar gyfleoedd ac uchelgeisiau o ran adeiladau yn y cyfarfodydd fforwm.
- 7.4.2 Mae aelodau wedi mynegi'r farn bod angen seilio **ymgyngoriadau** ar faterion neu gynigion penodol. [Cyf: 12] Y farn yw bod angen cael dogfen ar waith (y Cynllun hwn) er mwyn i'r gymuned allu gwneud cyfraniad ystyrlon. Yna gall proses ymgynghori ac adolygu fynd rhagddi ar sail themâu, meysydd gwasanaeth, a'r defnydd o adeiladau. Mae ymgynghori yn briodol ar draws pob ward a dosbarth demograffig, ac efallai mai Panel Safbwynt y Cyngor fydd y dull o weithredu angenrheidiol.
- 7.4.3 Yn y gorffennol, cafodd yr awdurdod a'i broses o wneud penderfyniadau eu llywio gan gyllidebau. Mae ethos a phroses gynllunio corfforaethol y Cyngor wedi symud i **flaenoriaethau a arweinir gan y gymuned**. Mae'n rhaid i swyddogion ac aelodau ymdrin â goblygiadau rôl y Cyngor mewn materion cynllunio o'r fath, ystyried y dulliau o wneud penderfyniadau a phennu'r disgwyliadau ansoddol ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol. Unwaith eto, mae aelodau wedi nodi'r angen i ddadlau ynghylch meini prawf ar gyfer safonau adeiladu a'r potensial i ddefnyddio technegau fel costio bywyd cyfan.
- 7.4.4 Mae llawer o waith i'w wneud i ddatblygu **dangosyddion perfformiad**. Dim ond wrth osod y sefyllfa y mae data portffolio o ddiddordeb cyffredinol, ac nid yw'n hwyluso cymhariaeth ystyrlon ag awdurdodau eraill. Dylai gwasanaethau allu darparu dangosyddion o berfformiad gwirioneddol o'i gymharu â safonau statudol, cenedlaethol neu benodol fel rhan o adolygiad perfformiad arferol, ac mae angen cyfuno hyn yn ganolog at ddibenion cyflwyno. Nid oedd modd defnyddio dangosyddion ar gyfer y cynnydd o ran gwaith atgyweirio a chynnal a chadw yn y flwyddyn gyntaf am nad oedd sail i'r gymhariaeth, ond yn y dyfodol, bydd yn rhaid dangos yn amlwg y newid mewn cyflwr o flwyddyn i flwyddyn.
- 7.4.5 Bydd **data defnydd** yn hanfodol wrth ystyried anghenion y gymuned ac adolygiad o eiddo ardaloedd. Mae hyn o ddiddordeb i aelodau ac yn cyd-fynd â'r Cynllun Cymunedol a'r Strategaeth Gymunedol sydd ar ddod. Nodwyd bod cyfarwyddiaethau gwasanaethau o'r farn y byddai angen adnoddau ychwanegol i ddatblygu dangosyddion perfformiad y tu hwnt i unrhyw ddata sydd ar gael ar hyn o bryd.

8.0 Y Strategaeth ac Arfarnu'r Opsiynau

8.1 Y Strategaeth sydd ar Ddod

- 8.1.1 Y weledigaeth yw cael portffolio eiddo sy'n cynnwys adeiladau sy'n addas at y diben, sydd mewn cyflwr boddhaol ac sy'n darparu amgylchedd diogel ar gyfer y bobl sy'n byw yno, yn gweithio yno neu'n ymweld â'r lle. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer 2004/5 yn cynrychioli'r cam cyntaf tuag at hyn, ac efallai y bydd 10 blynedd yn mynd heibio cyn y daw'r weledigaeth yn agos at fod yn realiti. Yn sgîl y gwahaniaeth mawr

rhwng y realiti presennol a'r nod, ni ellir gorbwysleisio'r angen am ddulliau eraill o weithredu ar gyfer darparu gwasanaethau, ariannu a chaffael.

8.2 Arfarnu'r Opsiynau

8.2.1 Wrth ddatblygu rhaglenni gwaith cyfredol, mae swyddogion yr awdurdod wedi arfarnu'r opsiynau sy'n gysylltiedig â nifer o fentrau e.e. Rhesymoli Depos, Strategaeth Swyddfa Gorfforaethol, Pafiliynau Chwaraeon, a darparu Llyfrgelloedd.

8.2.2 Mae'r system arfarnu a blaenoriaethu prosiectau [Atodiad 4] yn darparu dull o adolygu corfforaethol, yn sicrhau bod ymagwedd eglur tuag at arfarnu opsiynau, ac yn darparu llwybr archwilio. Mae swyddogion o'r farn bod y fframwaith hwn yn cyflwyno sail lem ar gyfer asesu heb fod yn rhy gymhleth. Bydd cwblhau'r ffurflen yn dangos cyfraniad y prosiect at amcanion a nodwyd, y goblygiadau cyfalaf a referniw, y risgiau a'r opsiynau a ystyriwyd, gan gynnwys, lle y bo'n briodol, yr opsiwn "gwneud dim".

8.3 Datblygu'r Strategaeth

8.3.1 Felly mae cynigion 2004/5 yn gam tuag at aildrefnu buddsoddiadau yn y dyfodol a datblygu ymagwedd "economi gymysg", ac maent yn arwydd o hynny hefyd. Er y casglwyd cyfoeth o ddata ac er y bu llawer o ddadlau, yn arbennig yn ymwneud â'r strategaeth gyfalaf, dim ond arfarniad interim a ganiatawyd gan y terfyn amser. Mae'r meysydd y mae angen buddsoddi ynddynt ar unwaith yn amlwg, ond byddai'n anghyfrifol rhoi arian i feysydd gwasanaeth penodol heb ystyried perfformiad y portffolio a'r disgwyliadau tymor hir sy'n gysylltiedig ag ef. Felly, bydd dyrannu adnoddau cyfalaf mewn meysydd o'r fath yn amodol ar adolygu eiddo a datblygu strategaeth glir ar gyfer darparu gwasanaethau.

8.3.2 Mae'r Cynllun Rheoli Asedau ei hun yn llifol ac mae'n rhaid ei ystyried fel arf ar gyfer datblygu strategaeth. Dim ond ar ôl cynnal adolygiad cynhwysfawr o eiddo y daw strategaeth dymor hir sydd wedi'i datblygu'n llawn ar gyfer adeiladau i'r amlwg. O gofio blaenoriaethau Aelodau, ac yng nghyd-destun cynaliadwyedd, bydd yr ymarferion adolygu yn ystyried:

- Y defnydd o'r eiddo
- Addasrwydd
- Cyflwr
- Costau rhedeg – yn arbennig, costau cyfleustodau ac effeithlonrwydd ynni

8.3.3 Ymddengys fod dwy ddadl unfath o fewn y Grŵp Rheoli Asedau a'r Grŵp Strategaeth Gyfalaf, gyda'r ail yn meddu ar fwy o ddylanwad yn nhermau gwneud penderfyniadau. Mae angen ymdrin â'r gorgyffwrdd hwn. Mae cylchred pennu dyraniadau cyfalaf yn flynyddol yn tueddu i ragori ar oblygiadau referniw. Er y caiff goblygiadau referniw eu hystyried yn y broses, mae angen ymdrin â'r rhain mewn dull mwy cadarn.

8.3.4 Yr Is-adran Eiddo fydd yn llywio'r camau gweithredu ar gyfer 2004/5. Mae'n rhaid i'r gwaith o gyflwyno a dehongli data ategu'r arfarniad o berfformiad, adeilad wrth adeilad. Mae cynnydd yn y broses o gasglu gwybodaeth sydd ar goll, ystyried addasrwydd yn ehangach, a datblygu dangosyddion yn hanfodol. Bydd hyn oll yn gofyn am adnoddau er mwyn galluogi fwy o waith arolygu cyflwr fynd rhagddo ac i hwyluso'r broses o holi a chyflwyno electronig.

9.0 Rhaglen Rheoli Asedau

9.1 Rhaglen Gyfalaf /Ariannu Cyfalaf

- 9.1.1 Hyd yn hyn, pennwyd y rhaglen gyfalaf yn effeithiol gan lefel y cymeradwyaethau credyd a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bellach, gall yr Awdurdod fenthyc cymaint ag y mae'n gallu ei fforddio. Fodd bynnag, hyd yma, nid oes profiad i seilio dyfarniadau arno. Mae'r gwaith o ystyried gofynion cyfalaf yn nodi na fyddai lefel fenthyc o £8.9m (mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi lefel y "benthyc ategol" fel y'i gelwir a gynhwyswyd o fewn y Setliad RSG) yn ategu lefel gyfredol y rhaglen gyfalaf – sy'n annigonol i gynnal asedau cyfredol. Daethpwyd i'r casgliad bod £10m yn lefel fwy realistig o fenthyc i gynnal y rhaglen gyfalaf. Pan gyfunwyd hyn â'r derbyniadau a'r grantiau cyfalaf arfaethedig, dylai hyn alluogi rhaglen gyfalaf graidd ar gyfer tai nad ydynt yn gyhoeddus o tua £13.7m.
- 9.1.2 Mae'n rhaid cydnabod bod anghenion buddsoddi'r awdurdod yn enfawr, a bod hyd yn oed y lefel gynyddol o wariant braidd yn cyffwrdd yr wyneb. Mae'r cynigion ar gyfer 2004/5 yn cynnwys cyfraniad o falansau. Yn ogystal â'r dyraniad ffurfiol, mae galwadau posibl eraill ar falansau gan gynnwys contractau cynnal a chadw eiddo; asbestos; a dyraniad posibl i gefnogi cynnig Ymddiriedolaeth Carbon am gronfa i arbed ynni. Caiff strategaeth ar wahân ei datblygu o ran balansau yn seiliedig ar y mwyafrif o'r arian yn cael ei ddefnyddio i ategu'r rhaglen gyfalaf.
- 9.1.3 Nodir y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2004/5 ynghyd â chynigion dros dro ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol yn Atodiad 12. Mae'n amlwg eisoes y gallai'r cynigion greu anawsterau i rai gwasanaethau y mae eu dyraniadau hanesyddol wedi gostwng. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn, mae'r Cyngor wedi cytuno y dylid cynnig swm ychwanegol o £500,000 fel cyfraniad refeniw i gyfalaf a bydd yn helpu i liniaru'r newid.

9.2 Y Rhaglen Gyffredinol

- 9.2.1 Mae'r Cynllun Gweithredu isod yn cydnabod y ceir cerrig milltir yn ystod unrhyw flwyddyn ariannol sy'n pennu'r flaenoriaeth a'r terfyn amser a roddir i dasgau unigol. Un o'r rhai pwysicaf yw'r angen i gydweddu â chylchredau ffurfiol ar gyfer pennu cyllidebau refeniw a chyfalaf. Cyfyngir ar y ddatl angenrheidiol ar lefel aelodau gan yr etholiadau lleol ym mis Mehefin 2004, a'r angen am wasanaethau unigol i ddyrannu adnoddau i ddatblygu'r broses o gasglu a dadansoddi data, ac adolygu portffolios yn fanylach. Y nod yw cyflawni Cynllun Rheoli Asedau sy'n fwy hyddysg, wedi'i goethi ac yn gryfach, a hynny erbyn dyddiad ei ddiwygio yn 2005.

9.3 Cynllun Gweithredu

- 9.3.1 Cynigir y Cynllun Gweithredu canlynol:

Cam Gweithredu	Dan Arweiniad	Terfyn Amser ar gyfer Cwblhau	Cyf. y Paragraff
-----------------------	----------------------	--------------------------------------	-------------------------

Amcan Eiddo 1 : Sicrhau bod yr ystad o'r maint gorau posibl a bod yr adeiladau yn addas at y diben ac mewn cyflwr da

1.	Datblygu Mesurau a Dangosyddion Perfformiad	Gwasanaethau a gefnogir gan Eiddo	Haf 2004	2.2.2
2.	Adolygu a Diweddarau Arolygon o Gyflwr	Eiddo	Parhaus	6.1.6
3.	Lleihau Bylchau Data. Paratoi Templed o Ddata ar gyfer pob Eiddo.	Eiddo	Parhaus / Haf 2004	8.3.4
4.	Casglu Data ar Berfformiad a'i Gyflwyno i Aelodau	Eiddo	Rhagfyr 2004	2.2.3

Amcan Eiddo 2 : Ymagwedd gyson, gwrthrychol, clir a chydgyssylltiedig tuag at reoli perfformiad asedau ac eiddo o fewn cyd-destun polisiau a blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor

5.	Dadansoddi Rhanddeiliaid yn Systematig	Gwasanaethau	Haf 2004	2.3.2 7.4.1
6.	Datblygu Ymwybyddiaeth Aelodau / Briffio Aelodau Newydd	Gwasanaethau Aelodau ac Eiddo	Hydref 2004	7.3.2
7.	Datblygu'r Cynllun Ymgynghori	Eiddo a Pholisi	Hydref 2004	7.4.2
8.	Dadl yr Aelodau ar Ethos Cynllunio Corfforaethol, Meini Prawf a Thechnegau.	Eiddo / Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau	Hydref 2004	7.4.3
9.	Adolygiadau o Bortffolios Gwasanaethau a Datblygu Strategaeth	Gwasanaethau a gefnogir gan Eiddo	Hydref 2004	7.1.6 8.3.2

Amcan Eiddo 3 : Rheoli eiddo mewn ffordd hyblyg ac arloesol, gan gynnwys hyrwyddo defnydd ar y cyd a defnydd wedi'i rannu

10.	Sefydlu Gofynion Data Defnydd ac Adnoddau i'w Casglu	Gwasanaethau	Gwanwyn 2004	7.1.7 7.4.5
11.	Adolygu'r Defnydd Posibl o Eiddo yn y Gymuned	Gwasanaethau	Hydref 2004	7.1.8 7.2.3

Amcan Eiddo 4 : Diogelu gwerth asedau'r cyngor a rheoli adeiladau yn effeithlon ac yn ddarbodus

12.	Adolygu Rolau a Rhyngweithiad y Grwpiau Strategaeth Gyfalaf a Rheoli Asedau	Cadeiryddion y Grwpiau / Tîm Rheoli Corfforaethol	Haf 2004	8.3.3
13.	Cynllunio Prosiectau a Dangos Effaith y Cynigion ar Effeithiolrwydd / Effeithlonrwydd Gwasanaethau	Gwasanaethau a'r Grŵp Strategaeth Gyfalaf	Parhaus hyd at fis Medi 2004	7.2.5
14.	Adolygu'r Rhaglen Gyfalaf	Grŵp Strategaeth Gyfalaf	O fis Hydref 2004	7.1.6
15.	Cymeradwyo'r Cynllun Rheoli Asedau wedi'i Ddiweddarau ar gyfer 2005/6	Eiddo	Mawrth 2005	-

Cyfeiriadau


1. Eich Cyngor – Gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
2. Ffigurau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2003 [Data Cyfrifiad 2001]
3. Fframwaith Dogfennau Polisi – Mewnrwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
4. Adolygiad Cymheiriaid Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2002
5. Datgloi'r Potensial – Mewnrwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
6. Cynllun Gwella Gwerth Gorau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2003 - 2004
7. Llyfrgell o Ddangosyddion Perfformiad Lleol – Gwefan IPF [www.ipf.co.uk - *IPF yw braich fasnachol y Sefydliad Siartredig dros Gyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg*]
8. Adroddiad yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynnal a Chadw Adeiladau 2003 fel y'i hystyriwyd gan y Tîm Rheoli Corfforaethol ar 27ain Tachwedd 2003
9. Datganiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar Weithredu Llywodraeth Electronig 2002/3
10. Cynllun Gwella Is-adran Eiddo Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2003 - 2004
11. Cyfansoddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (fel y'i diwygiwyd Mai 2003) Rhan 4, Adran 12.00 – Eiddo/Ystadau
12. Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau 28ain Tachwedd 2003

Rhestr o'r Atodiadau


- Atodiad 1 Fframwaith Trefniadol a Strwythur Reoli
- Atodiad 2 Amcanion Asedau Corfforaethol
- Atodiad 3 Mesurau Perfformiad
- Atodiad 4 System Arfarnu a Blaenoriaethu Cyfalaf
Diagram o'r Strategaeth Fuddsoddi
Ffurflen Blaenoriaethu Prosiectau
- Atodiad 5 Ffurflen Datganiad Gwasanaeth
- Atodiad 6 Datganiad Cryno ar Faterion a Gofynion Adnoddau
- Atodiad 7 Dosbarthu a Rheoli Eiddo
- Atodiad 8 Rhestr o Adeiladau
- Atodiad 9 Rhestr o Gyflwr ac Addasrwydd Eiddo
- Atodiad 10 Rôl yr Is-adran Eiddo, Rheoli Eiddo, a Throsglwyddo Tir ac Adeiladau
Anweithredol
- Atodiad 11 Anghenion Ariannol
- Atodiad 12 Rhaglen Gyfalaf 2004/5 – 2006/7

Atodiad 1 Fframwaith Trefniadol a Strwythur Rheoli

Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfrifoldeb dros Themâu Allweddol:



Strwythur y Cabinet :



Atodiad 2 Amcanion Asedau Corfforaethol

Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau, a gyflwynwyd ar ôl hynny i'r Cabinet ar 8fed Gorffennaf 2003, ac a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 31ain Gorffennaf 2003.

PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU

PWNC: POLISI ASEDAU CORFFORAETHOL

ADRODDIAD GAN: CYFARWYDDWR YR AMGYLCHEDD

1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 I ystyried y Polisi Asedau Corfforaethol cyn ei gyflwyno i'r Cabinet/Cyngor.

2. CYSYLLTIADAU Â STRATEGAETH

3.1 Byddai'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cynorthwyo'r broses o gyrraedd nod y Cyngor i gyflawni pob gwasanaeth yn effeithiol a sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau.

3.2 Yn benodol, rhaid i'r Awdurdod gael Cynllun Rheoli Asedau ar waith erbyn Ebrill 2004 a ddylai gynnwys amcanion corfforaethol clir ar gyfer dal eiddo.

4. YR ADRODDIAD

4.1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol Cymru baratoi eu Cynlluniau Rheoli Asedau cyntaf ar gyfer pob math o eiddo (heblaw tai a seilwaith) erbyn Ebrill 2004. Mae Consortiwm Awdurdodau Lleol yng Nghymru, ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi cyhoeddi canllawiau i alluogi Cyngorau i baratoi cynlluniau mewn fformat ystyrlon a chyson.

4.2 Proses fusnes yw Cynllunio Rheoli Asedau gyda'r diben sylfaenol o sicrhau defnydd gwell o asedau cyhoeddus a lleihau'r gost o adnoddau sydd ynghlwm wrth dir ac adeiladau.

4.3 Mae'r canllawiau yn nodi y dylai'r Cynllun gynnwys datganiad clir o amcanion eglur ar draws yr awdurdod ar gyfer dal eiddo, a dylent fod yn gysylltiedig â nodau ac amcanion craidd y Cyngor. Dylai hyn gynnwys pob categori o eiddo a ddelir gan yr awdurdod, a dylai nodi rhesymeg sylfaenol y Cyngor ar gyfer dal eiddo.

4.4 Felly, mae Grŵp Rheoli Asedau y swyddogion wedi paratoi datganiad a nodir yn Atodiad 1.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1 Nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol. Bydd mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau yn cynorthwyo'r awdurdod i gyflawni gwell gwerth am arian yn y broses o reoli asedau cyfalaf – tir ac adeiladau.

6. GOBLYGIADAU I'R ADRAN BERSONÉL

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau.

7. ARGYMHELLION

7.1 Gofynnir am sylwadau aelodau cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet/Cyngor.

8. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

8.1 Bod yr amcanion ar gyfer dal eiddo yn cael eu cydnabod a'u cymeradwyo yn gorfforaethol.

Awdur: Roland Lambie, Rheolwr Eiddo Corfforaethol

Ymgynghorwyr: Tîm Rheoli Corfforaethol
Chris Burns, Pennaeth Polisi a Gwasanaethau Canolog
Cris Davies, Prif Swyddog Tai
Steve Lawrence, Rheolwr Is-adrannol, Blaengynllunio Addysg
Phil Davy, Pennaeth Datblygu Economaidd a Thwristiaeth
Satya Schofield, Rheolwr Gwasanaethau, Adnoddau a Pherfformiad,
Gwasanaethau Cymdeithasol
Pat Mears, Prif Swyddog Cynllunio
Peter Gomer, Pennaeth Dysgu Gydol Oes
Tim Peppin, Rheolwr Ymchwil Polisi
Roger Webb, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
Y Cyngorydd C. Mann

Papurau Cefndirol:

Dim

Atodiadau:

Atodiad 1 Polisi Asedau Corfforaethol

Cysylltiadau â Dogfennau Eraill:

Cofnodion Dim

Agenda Dim

POLISI ASED AU CORFFORAETHOL

EBRILL 2003

Nod Corfforaethol:

Rheoli tir ac adeiladau'r cyngor yn effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodus a darparu amgylchedd bywyd a gwaith diogel, cynaliadwy a hygyrch i bob defnyddiwr.

Caiff y modd y mae'r Cyngor yn rheoli ei asedau eiddo effaith fawr ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i'r amgylchedd bywyd a gwaith lleol. Mae angen gwneud y defnydd gorau o'r asedau hyn i gefnogi blaenoriaethau ac amcanion corfforaethol a gwasanaethau. Gallant hefyd gyfrannu'n sylweddol at waith sefydliadau allanol i'r gymuned a gallant weithredu fel catalydd ar gyfer adfywio lleol.

Mae portffolio'r Cyngor yn cynnwys:

- tir ac adeiladau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd – fel ysgolion, cartrefi, canolfannau dydd, canolfannau hamdden, a pharciau.
- eiddo sy'n ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau rheng flaen – e.e. swyddfeydd a depos.
- eiddo a ddarparwyd ar gyfer trydydd partion – adeiladau fel ystadau diwydiannol a chanolfannau cymunedol
- eiddo anweithredol – eiddo sy'n fuddsoddiadau ac eiddo nad oes ei angen a'r eiddo hynny a ddelir i'w ddefnyddio yn y dyfodol

Mae eiddo yn ased sy'n "llyncu adnoddau" ac mae angen symiau mawr o arian er mwyn rhedeg adeiladau – gwresogi, glanhau, cynnal a chadw, diogelwch, ac ati, ac mae angen proses o reoli strategol er mwyn sicrhau hynny:

- ni wastraffir arian ac adnoddau eraill ar adeiladau nad oes eu hangen neu'r adeiladau hynny nad ydynt yn effeithlon ac sy'n ddud i'w rhedeg
- mae'r adeiladau yn addas i'w defnyddio ac mewn cyflwr da
- gwneir defnydd gwell o eiddo a manteisir ar y cyfle i wella neu resymoli'r portffolio

Mae cydnabod na ellir ymdrin â chynllunio rheoli asedau yn blwyfol yn hanfodol er mwyn cyflawni'r gwaith hwn yn llwyddiannus. Mae'n rhaid i swyddogion ac aelodau ystyried buddiannau'r cyngor cyfan, meddwl yn strategol yn hytrach na meddwl yn nhermau tymor byr ac arfarnu ac adolygu daliadau eiddo a pherfformiad yn feirniadol.

Mae'n rhaid i'r gwaith o reoli'r ystad adlewyrchu polisiau corfforaethol y Cyngor, ei themâu trawsbynciol, ei weledigaethau, a hyrwyddo ystyried datblygu cynaliadwy. Dylid talu sylw digonol i'r flaenoriaeth a roddir i adfywio a chynnal a chadw asedau cymunedol.

Dylai'r egwyddorion allweddol canlynol ategu proses y Cyngor o reoli asedau yn strategol:

- ymagwedd adrannol a chorfforaethol integredig
- cyfrifoldeb amlwg dros y swyddogaeth ac arweinyddiaeth gorfforaethol

- cydbwysedd rhwng cyfrifoldeb canolog a datganoledig dros dir ac adeiladau a chydabyddiaeth glir o'r cyfrifoldebau hynny
- amcanion clir ar draws yr awdurdod
- newid sydd wedi'i gynllunio, ei gydlynu a'i flaenoriaethu yn gorfforaethol
- rheoli perfformiad mewn dull syml a chadarn sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag amcanion cytûn
- systemau data effeithiol
- technegau cadarn ar gyfer arfarnu opsiynau i ategu buddsoddiadau, y broses o resymoli a phenderfyniadau eraill sy'n gofyn am gydbwysedd rhwng buddiannau gwasanaeth ac elw ariannol

Amcanion y Cyngor o ran eiddo:

- 1. Sicrhau bod yr ystad o'r maint gorau posibl a bod adeiladau yn addas at y diben ac mewn cyflwr da**
- 2. Ymagwedd gyson, gwrthrychol, clir a chydgyssylltiedig tuag at reoli asedau a pherfformiad asedau o fewn cyd-destun polisiâu a blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor**
- 3. Rheoli eiddo mewn ffordd hyblyg ac arloesol, gan gynnwys hyrwyddo defnydd ar y cyd a defnydd wedi'i rannu**
- 4. Diogelu gwerth asedau'r cyngor a rheoli daliadau yn effeithiol ac yn ddarbodus**
- 5. Defnyddio sgiliau ac adnoddau sefydliadau allanol i wella'r ystad, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth**
- 6. Sicrhau bod rhesymeg glir ac amlwg ar gyfer dal eiddo anweithredol a'r eiddo hwnnw dan ddeiliadaeth trydydd partïon**

Atodiad 3 Mesurau Perfformiad

Cyflwr ac Addasrwydd at y Diben:

Addasrwydd

Adeiladau ar agor i'r cyhoedd/yn hygyrch i bobl anabl (Nifer a %)

Digonolrwydd

Nifer gwirioneddol o gymharu â safonau statudol/cenedlaethol/penodol y gwasanaethau

Cyflwr

% o arwynebedd gros y llawr yn fewnol mewn categorïau cyflwr A – D
Ôl-groniad o waith cynnal a chadw yn ôl cost a fynegwyd fel % mewn lefelau blaenoriaeth ac yn ôl gwerth

Perfformiad Rheoli:

Portffolio

Nifer yr asedau fesul 1000 aelod o'r boblogaeth
Arwynebedd gros y llawr fesul 1000 aelod o'r boblogaeth(m²)
Arwynebedd y tir fesul 1000 aelod o'r boblogaeth(Hectarau)

Rheoli a Defnyddio

Cost reoli flynyddol fesul m².

Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw

Gwariant y canlyniadau o gymharu â'r angen a aseswyd
Cyfradd ostwng ôl-groniadau

Gwerthiannau a Derbyniadau

Derbyniadau cyfalaf a gyflawnwyd o gymharu â'r targed

Effeithlonrwydd a Chynaliadwyedd Eiddo:

Ynni

Lefel o ollyngiadau CO² (tunnell/m²)

Costau Rhedeg

Costau Rhedeg Refeniw / m².
Costau Rhedeg Refeniw / deiliad (neu nifer y defnyddwyr fel y bo'n briodol)

Defnydd

Defnydd yn erbyn safonau a gyhoeddwyd neu a argymhellwyd
Arwynebedd net y gellir ei ddefnyddio fesul person/gweithle
Oriau a ddefnyddiwyd fel % o'r oriau sydd ar gael i'w defnyddio
Oriau defnydd pob gweithle

Rhaglen Gyfalaf– perfformiad adeiladu a chynnal a chadw

Haeradwyaeth Amser a Chostau (dangosyddion DTLR)

Amrywiadau – Nifer yr amrywiadau a orchynnwyd yn ystod cyfnod y contract

Nifer y diffygion a gofnodwyd wrth newid dwylo ar ddiwedd y cyfnod atebolrwydd diffygion

Tystysgrifau terfynol a ddisbarthwyd o fewn 18 mis i'r cyfnod Cwblhau Ymarferol (%)

PAPUR TRAFOD I'R GRŴP STRATEGAETH GYFALAF.

STRATEGAETH GYFALAF A BLAENORIAETHU PROSIECTAU.

Wrth reoli ei asedau, mae angen i'r cyngor sicrhau bod rhaglen buddsoddi cyfalaf ar waith yn nhermau ei chyfraniad i gyflawni amcanion corfforaethol ac amcanion gwasanaethau. I wneud hyn, mae angen strategaeth gyfalaf, sy'n darparu arweiniad strategol clir ar amcanion corfforaethol, blaenoriaethau a chynlluniau gwario. Dylai'r strategaeth ymwneud â buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig ar gyfer pob ased, gan gynnwys adeiladau, seilwaith, TG a cherbydau a chyfarpar.

Bydd Cynllun Rheoli Asedau'r cyngor yn sail i'r strategaeth gyfalaf (mae rhai cynghorau wedi cyfuno'r dogfennau), a fydd yn nodi anghenion cyfredol a rhagdybiedig eiddo corfforaethol ac eiddo gwasanaethau ar gyfer yr ystad nad yw'n cynnwys tai ac yn nodi'r opsiynau a'r camau strategol er mwyn diwallu'r anghenion hynny, gan gynnwys buddsoddiadau cyfalaf.

Mae'r ODPM wedi nodi y dylai strategaeth gyfalaf:

- Ymwneud â gweithgaredd a mentrau trawsbynciol ar draws y cyngor.
- Disgrifio'r fframwaith a roddwyd ar waith gan yr awdurdod i sicrhau ei bod yn ddogfen gorfforaethol.
- Nodi agweddau allweddol gwariant cyfalaf o fewn yr awdurdod a'r meysydd hynny lle y gall yr awdurdod ddyllanwadu ar eraill drwy ddefnyddio ei adnoddau cyfalaf.
- Egluro'r ffordd y caiff cynigion prosiectau cyfalaf eu blaenoriaethu.
- Egluro'r ffordd y caiff goblygiadau refeniw buddsoddiadau cyfalaf eu hystyried.
- Cael ei llywio gan ganlyniadau gwerth gorau ac adolygiadau a chynlluniau gwella eraill.
- Nodi'r ffordd y deir o hyd i sylwadau rhanddeiliaid a phartneriaid a llywio'r broses o weithredu a datblygu'r strategaeth.
- Llywio'r broses o wneud cynnig am adnoddau cyfalaf.
- Nodi ymagwedd y cyngor tuag at gael arian cyfalaf.
- Dangos y ffordd y caiff perfformiad ei fesur a'i fonitro a'r ffordd o weithredu arno.

Elfen allweddol wrth weithredu'r strategaeth gyfalaf yw'r gwaith o ddatblygu system arfarnu a blaenoriaethu cyfalaf sy'n sicrhau bod y rhaglen gyfalaf yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol a blaenoriaethau gwasanaethau. Dylai unrhyw system sicrhau bod y broses o flaenoriaethu prosiectau yn gorfforaethol, yn eglur, yn hawdd i'w deall, yn amlwg ac yn gallu cael ei chymhwyso ar draws yr awdurdod i bob ased. Mae rhai cynghorau wedi datblygu systemau sgorio wedi'u pwysoli ac er eu bod yn amrywio o ran cymhlethdod, mae'r meini prawf asesu sydd wedi'u mabwysiadu, y mae rhai ohonynt wedi'u rhestru isod, yn debyg iawn ar y cyfan:

- Cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol, cymunedol a gwleidyddol.
- Cyfrannu at flaenoriaethau ac amcanion gwasanaethau.
- Cyfrannu at weithio trawsbynciol ar draws yr awdurdod.
- Gofynion statudol a chyfreithiol.

- Effaith ar ddangosyddion perfformiad allweddol cenedlaethol.
- Cyfraniad gan bartneriaid / sefydliadau allanol.
- Argymhellion Adolygiad Gwasanaeth Gwerth Gorau.
- Cost cyfalaf / arbedion refeniw.
- Lefel o arian allanol a roddwyd.
- Cadw / gwella asedau.
- Pa mor daer yw'r angen am y prosiect.

Os caiff yr egwyddor o sefydlu system ffurfiol o flaenoriaethu ei chymeradwyo, mae'n rhaid rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y broses yn gorfforaethol, yn wrthrychol ac yn amlwg a nod aelodau yn cael eu cynnwys yn y broses yn briodol. Gellid cyflwyno trefniadau tebyg i'r rhai a nodwyd isod:

1. Cyflwynir pob cynnig gan wasanaethau yn unol ag amserlen gytûn a:

- chânt eu blaenoriaethu cyn eu cyflwyno
- byddant mewn fformat cyson
- byddant yn darparu gwybodaeth ategol ddigonol, yn cynnwys tystiolaeth bod yr opsiynau wedi'u harfarnu
- byddant wedi'u cymeradwyo gan yr aelod perthnasol o'r Cabinet.

2. Mae'r grŵp hwn, o bosibl drwy is-grŵp yn cyflwyno adroddiadau iddo, yn asesu'r cynigion yn erbyn meini prawf cytûn ac yn gwneud argymhellion ar y rhaglen i'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

3. Ar ôl cael cymeradwyaeth y Tîm Rheoli Corfforaethol, ystyrir y rhaglen gan bwyllgorau craffu cyn eu cyfeirio i'r Cabinet a'r Cyngor.

Awdur: Prif Swyddog Eiddo.


Dyddiad: Awst 2003.

RHEOLI ASEDAU – STRATEGAETH FUDDSODDI

Adnoddau

- BCA
- Derbyniadau Cyfalaf
- Refeniw (Cod Darbodus)
- Grant/Ariannu Allanol
- Cyllid Preifat

ARFARNIAD STRATEGOL O'R OPSIYNAU



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

CYNNIG AM BROSIECT GWARIANT CYFALAF

Teitl y Prosiect		Cyfarwyddiaeth(au) a Noddwr y Prosiect				
Disgrifiad o'r prosiect a'i nod(au)						
	Meini Prawf Asesu (Anariannol)	Nodiadau/Sylwadau	Canllaw Sgorio	Sgôr	Pwysoliad	Sgôr wedi'i bwysoli
1.	Cyfraniad at y Cynllun Cymunedol / strategaethau a blaenoriaethau corfforaethol <ul style="list-style-type: none"> - Adfywio Economaidd - Addysg am Oes - Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles - Yr Amgylchedd/ Cynaliadwyedd - Blaenoriaethau Corfforaethol (y cytunwyd arnynt) 		0 – Nid yw'n cyfrannu at unrhyw strategaeth gorfforaethol 1 – 2 – 3 – Yn cyfrannu'n sylweddol at un strategaeth neu'n cyfrannu at fwy nag un.			
2.	Cyfraniad at flaenoriaethau gwleidyddol a/neu gyhoeddus.		0 – Dim 1 – 2 – 3 – Uchel			
3.	Cyfraniad at weithio ar draws yr awdurdod cyfan a gweithio mewn partneriaeth.		0 – Nid yw'n cynnwys unrhyw gydweithredu rhyngadrannol. 1 – 2 – 3 – Nifer o wasanaethau yn ymwneud â diffinio a chyflenwi'r prosiect.			
4.	Cyfraniad at gyflawni Amcanion Asedau Corfforaethol.		0 – Dim cyfraniad uniongyrchol at unrhyw amcanion asedau corfforaethol. 1 – 2 – 3 – Cyfraniad at o leiaf ddau amcan.			
5.	Cyfraniad at gyflawni amcanion y Cynllun Gwella Gwasanaethau.		0 – Nid yw'n bodloni'r maen prawf, 1 – 2 – 3 – bodloni un amcan allweddol yn gyfan gwbl neu gyfran sylweddol o 2 amcan o leiaf			

6.	Cyfraniad at Gyflawni cynllun gweithredu'r Adolygiad Gwasanaeth Gwerth Gorau.		0 – Nid yw'n bodloni'r maen prawf 1 – 2 – 3 – Camau gweithredu yn rhan bwysig o'r Cynllun Gwella Gwerth Gorau neu'n argymhelliad yn deillio ohono			
----	---	--	--	--	--	--

Meini Prawf Asesu (Anariannol)		Nodiadau/Sylwadau	Canllaw Sgorio	Sgôr	Pwysoliad	Sgôr wedi'i bwysoli
7.	Cefnogi dyletswydd y Cyngor wrth fodloni rhwymedigaethau neu ofynion cyfreithiol penodol.		0 – Nid yw'n cefnogi unrhyw rhwymedigaeth neu ddyletswydd gyfreithiol 1 – 2 – 3 – Cefnogi un rhwymedigaeth/dyletswydd yn gyfan gwbl neu gyfran sylweddol o ddwy ohonynt o leiaf.			
8.	Effaith ddisgwyliedig ar ddangosyddion perfformiad allweddol cenedlaethol.		0 – Ni fydd yn effeithio ar unrhyw ddangosyddion perfformiad allweddol cenedlaethol 1 – 2 – 3 – Bydd yn gwella perfformiad o ran o leiaf ddau ddangosydd perfformiad allweddol cenedlaethol.			
9.	Ffactor risg wrth gyflawni nod y prosiect.		0 –Risg Uchel – prosiect o fath newydd. 1 – 2 – 3 – Risg isel – ailadrodd o brosiect gyda galw sicr.			
10.	Brys: NAILL AI (a) angen ei gwblhau o ganlyniad i amgylchiadau nas rhagwelwyd e.e. difrod difrifol i adeilad hanfodol NEU (b) bydd dechrau'r prosiect yn syth yn arwain at fuddiannau ariannol tymor hir e.e. gostyngiadau sylweddol ar gael nawr NEU (c) arian yn gyfyngedig o ran amser		0 – Dim brys 1 – 2 – 3 – Ar frys mawr			
CYFANSWM						

DADANSODDIAD ARIANNOL	Ebrill 04 i Fehefin 04	Gorffennaf 04 i Fedi 04	Hydref 04 i Ragfyr 04	Ionawr 05 i Fawrth 05	Ebrill 05 i Fehefin 05	Gorffennaf 05 i Fawrth 06	2006/07	2007/08	CYFANSWM
Ffioedd Dylunio Ymchwiliadau Sylfaenol Rheoliadau Cynllunio/Adeiladu Ystadegau Caffael Tir/Adeiladau Prif Waith Ffioedd Goruchwylio/ Adolygu Prosiectau	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd	£000oedd
CYFANSWM COSTAU'R PROSIECT									
Arian Cyfalaf Allanol Derbyniadau cyfalaf a gynhyrchir Cost Cyfalaf Net									
Costau Refeniw Gweithredol Mewn Refeniw Arian Refeniw Allanol Cynnydd (Gostyngiad) Net mewn Cost Refeniw									

ARFARNIAD O'R OPSIYNAU

Crynodeb o'r arfarniad o'r opsiynau eraill i gyflawni amcan gan gynnwys y goblygiadau a fyddai'n deillio o fethiant y prosiect i fynd rhagddo.

Cyf:

DATGANIAD GWASANAETH

Cyfarwyddiaeth:

Gwasanaeth:

Naratif	Gwybodaeth/Materion Allweddol
Portffolio (Crynodeb):	
Cyflwr yr Eiddo:	
Addasrwydd yr Eiddo:	
Digonolrwydd yr Eiddo:	
Cyfeiriad/Angen y Gwasanaeth:	
Newid a Nodwyd:	
Materion Adnoddau:	
Crynodeb/Sylwadau:	

Atodiad 6 Datganiad Cryno ar Faterion ac Anghenion Eiddo

O'r datganiadau gwasanaeth a gwblhawyd a'r trafodaethau â chyfarwyddiaethau gwasanaeth, nodwyd y materion a'r anghenion canlynol o ran eiddo:

1.1 Prif Weithredwr- Portffolio Diwydiannol

Addasrwydd a Digonolrwydd:	Arallgyfeirio i gynnwys unedau penodol uwch a ddymunir. Cynnydd strategol o ran y stoc mewn lleoliadau allweddol yn cael ei gyfyngu gan argaeledd arian a thir.
Materion Allweddol /Newidiadau:	Mae argaeledd eiddo modern yn ofyniad sylfaenol – mae angen cynnydd o ran y stoc mewn lleoliadau allweddol er mwyn diwallu'r angen. Strategaeth gyffredinol i amrywio a denu mwy o'r diwydiannau gwybodaeth. Gwerthwyd 100 o unedau ar 3 ystad yn ddiweddar gyda'r rhai a gedwir yn cael eu diweddarau a'u gwella i ddarparu amgylchedd o ansawdd.

1.2 Prif Weithredwr- Twristiaeth

Addasrwydd a Digonolrwydd:	Mae'r cyfleusterau twristiaeth yn seiliedig ar gyfuniad o adeiladau sydd o ddi-ddordeb a gwerth sylweddol. Mae cyfleusterau a ddyluniwyd at y diben wedi'u hystemyn a'u haddasu wrth i anghenion busnes newid. Mae'r prif faterion addasrwydd yn ymwneud â rheoli mynediad, bodloni gofynion Iechyd a Diogelwch a darparu system wresogi a goleuadau ac ati, mewn ffordd nad yw'n dinistrio'r ased.
Materion Allweddol /Newidiadau:	Mae angen cynnal adolygiad radical er mwyn ymdrin â'r cynnyrch, disgwyliadau ymwelwyr, safle yn y farchnad, buddsoddiad, ac ati, a gallai hyn arwain at resymoli portffolio'r eiddo. Mae angen diweddarau'r cyfleusterau yn barhaus er mwyn bodloni disgwyliadau cwsmeriaid a gweithgareddau cystadleuwyr.

1.3 Prif Weithredwr – Uned y Fargen Newydd

Addasrwydd a Digonolrwydd:	Mae'r eiddo wedi'i adnewyddu'n fewnol ac yn darparu ystafelloedd addas ar gyfer anghenion Uned y Fargen Newydd
Materion Allweddol /Newidiadau:	Ar hyn o bryd mae'n bodloni'r holl ofynion. Ariennir yr adeiladau sydd wedi'u rhentu a'r gwaith o'u cynnal a'u cadw gan incwm ond byddai rhaglen cynnal a chadw wedi'i chynllunio yn ddymunol. Bwriedir adeiladu tŷ gwydr newydd ond nid yw hyn wedi'i gostio eto ac mae'n amodol ar gael contractau.

1.4 Prif Weithredwr – Canolfannau Cwsmeriaid yn Gyntaf ac Is-orsafoedd eraill

Addasrwydd a Digonolrwydd:	Ni nodwyd unrhyw faterion ar gyfer gwasanaethau nac adeiladau presennol y Dirprwy Prif Weithredwr (cynhwysir adeiladau TG o dan Swyddfeydd Corfforaethol). Ceir materion o ran gofod a llefydd parcio mewn nifer o Swyddfeydd Ardal ar gyfer Tai.
Materion Allweddol /Newidiadau:	Dilynnir y cynllun peilot ar gyfer creu "Canolfan Cwsmeriaid yn Gyntaf" yn y Coed Duon gan raglen bosibl o gyfleusterau tebyg gydag amgylcheddau gwasanaethau cwsmeriaid o ansawdd uchel, wedi'i chyfuno â chanolfan galwadau. Cynlluniau i resymoli'r ddarpariaeth o Swyddfeydd Ardal ar gyfer Tai.

--	--

2.1 Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden - Swyddfeydd

Addasrwydd a Digonolrwydd:	Mae newidiadau yn y Swyddfa Addysg wedi gwella'r cyfleusterau. Ni ragwelir unrhyw wariant mawr arall yn Ystrad Mynach ac eithrio ar gyfer darparu Ystafell TG a lifft. Mae Trecelyn wedi'i lleoli'n gyfleus ond mae gofynion o ran mynediad/y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DDA) yn faterion penodol.
Materion Allweddol /Newidiadau:	Dod o hyd i adeiladau ar gyfer y Gyfarwyddiaeth gyfan mewn un safle hygrych sy'n ganolog i'r sir. Yn y tymor byr, symud grwpiau llai o staff rhwng adeiladau er mwyn ceisio sicrhau cydlynid gweithredol. Gweler 5.4 ar gyfer Swyddfeydd Corfforaethol.

2.2 Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden - Ysgolion

Addasrwydd a Digonolrwydd:	<p>Disgwyliad y Cynulliad Cenedlaethol yw sicrhau y bydd pob ysgol yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig erbyn 2010. Bydd hyn yn golygu y bydd angen i'r Cyngor ystyried gwneud ysgolion yn addas at y diben (yn nhermau addasrwydd a digonolrwydd) wedi'u cynllunio'n benodol i fodloni gofynion parhaus gwasanaethau.</p> <p>Mae angen i'r gwaith o reoli lleoedd ysgolion ystyried asesiad o anghenion realistig o ran adeiladau er mwyn cyflenwi cwricwlwm modern yn effeithiol. Er mwyn gwella safonau addysgol o fewn cyllideb fanwl, bydd angen rhesymoli rhan hanfodol o'r broses gynllunio.</p>
Materion Allweddol /Newidiadau:	<p>Caiff cyfran y Gwasanaeth Addysg o raglen gyfalaf flynyddol y Cyngor, wedi'i chyfuno â dyraniad Grant Gwella Adeiladau Ysgolion y Cynulliad a'r Gronfa Cynlluniau Mawr, ei thargedu tuag at ddiwallu'r anghenion uchod yn y tymor canol.</p> <p>Er gwaethaf buddsoddiadau mawr yn y stoc, mae'r cyflwr yn parhau i ddirywio. Hyd yn oed pe bai'r Cyngor yn ymrwymo adnoddau i gyflawni'r gwaith cynnal a chadw a nodir yn yr arolygon o gyflwr, dim ond llwyddo i sicrhau bod ysgolion presennol yn cyrraedd safon sylfaenol y byddai hyn yn ei gyflawni, ac ni fyddai'r ysgolion o reidrwydd yn addas at y diben.</p> <p>Gyda rhai eithriadau, gellir rheoli'r newid o ran Blynnyddoedd Cynnar o fewn y stoc adeiladau presennol. Mae'r Cyngor wedi penderfynu cau Ysgol Gyfun Bedwellte. Mae Ysgol Gyfun St. Ilan, a nodwyd o'r blaen fel ysgol y gellid ei chau o bosibl, yn ceisio statws Sylfaen.</p> <p>Cyfrifoldeb yr Awdurdod Addysg Leol yw dod o hyd i ysgolion newydd, lle y bo angen, yn enwedig pan fydd adeiladau'r ysgol men cyflwr gwael iawn, ond mae'r costau cyfalaf yn debygol o fod yn sylweddol. Yn realistig, mae'n bosibl mai ffynonellau eraill o arian, fel Mentrau Cyllid Preifat, fydd yr unig opsiwn.</p> <p>Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwrthod cynigion ar gyfer Ysgolion Cyfrwng Cymraeg, ac mae angen i aelodau ystyried y ffordd ymlaen.</p>

2.3 Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden – Canolfannau Hamdden/Cyfleusterau ar y Cyd

Addasrwydd a Digonolrwydd:	Mae angen ymdrin â gwaith cynnal a chadw ataliol sydd wedi'i gynllunio, gofynion DDA, anghenion gwasanaethau a chyflwr ffisegol, ac mae angen rhesymoli'r adeiladau/gweithgareddau er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr.
Materion Allweddol /Newidiadau:	Yr amcan cyffredinol yw sicrhau darpariaeth gytbwys gan ddefnyddio arian allanol i wella'r stoc bresennol, wedi'i ganolbwyntio ar yr agenda iechyd/addasrwydd. Bydd angen buddsoddi/ailfuddsoddi mewn canolfannau mewn 6 lleoliad strategol, a'u hehangu.

2.4 Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden – Parciau a Thir

Addasrwydd a Digonolrwydd:	<p>Mae angen gwaith adfer ac adnewyddu mawr ar hen bafiliynau Cwm Rhymni er mwyn osgoi cau llawer ohonynt ar sail iechyd a diogelwch. Nid yw llawer o'r pafiliynau bach yn ddigon mawr ar gyfer y defnydd presennol a wneir ohonynt, ac nid oes digon o doiledau cyhoeddus chwaith. Mae rhai ohonynt yn rhy bell o'r caeau. Nid yw'r trefniadau presennol yn gost effeithiol o ran cynnal adeiladau bach yn unigol, ac mae gan bob un ei ofalwr ei hun. Yn ddelfrydol, byddai rhaglen o resymoli/ disodli yn ddymunol er mwyn darparu cyfleusterau aml swyddogaeth mwy ar gyfer chwaraeon amrywiol, yn gwasanaethu amrywiaeth o gaeau chwaraeon. Ceir rhywfaint o gyfle i ddarparu cyfleusterau newydd drwy weithio mewn partneriaeth.</p> <p>Mae'r Cynllun Datblygu Unedol yn galw am gynnydd cyffredinol o 19 o gaeau chwaraeon, a bydd angen cynnal dadansoddiad ward wrth ward yn erbyn safonau NPFA.</p>
Materion Allweddol /Newidiadau:	<p>Rhaglen newydd o gaeau chwaraeon, gyda rhai ohonynt wedi'u hariannu drwy ddefnyddio cytundebau Adran 106, a thrwy gaffael tir yn Fochriw. Goblygiadau refeniw i'r gwaith o gynnal a chadw caeau chwaraeon.</p> <p>Disgwylir ariannu'r gwaith o atgyweirio a gwella parciau/tir hamdden anffurfiol presennol, ond bydd angen arian allanol ar nifer ansicr o "Barciau Piced", a fydd yn costio £5-6K yr un.</p> <p>Caiff y gwaith o ddarparu tir garddio a daliadau tir ei adolygu yn systematig.</p> <p>Bydd angen nawdd ac arian allanol er mwyn datblygu mentrau. Caiff cyfleusterau newydd eu caffael drwy bartneru a chontractwyr arbenigol.</p>

2.5 Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden – Addysg Gymunedol ac Ieuentid

Addasrwydd a Digonolrwydd:	<p>Mae arolygiad gan ESTYN wedi amlygu'r cyfleusterau sylfaenol, yr hylendid gwael, a'r materion iechyd a diogelwch. Mae'r gwariant wedi llwyddo i gynnal cyflwr yr adeiladau, ond i raddau cyfyngedig yn unig. Mae diogelwch yn fater hollbwysig.</p> <p>Mewn rhai ardaloedd, mae gormod o adeiladau gan y gwasanaeth, ac nid yw'r gwariant refeniw yn cynrychioli gwerth am arian. Mae materion o ran gofod, gweithgaredd, ac ardaloedd pwrpasol. Mae angen gwneud gwaith adnewyddu yn ogystal â chael cyfleusterau ychwanegol i ategu'r rhai sy'n bodoli eisoes. Dylid amrywio'r defnydd o ganolfannau presennol yn hytrach na darparu rhai ychwanegol.</p>
Materion Allweddol /Newidiadau:	Mae angen rhesymoli a chynllunio darpariaeth newydd. Dim ond drwy ystyried anghenion a chyfluoedd cymuned wrth gymuned yn fanwl y gellir gwneud hyn. Ni ddylai'r gwaith o ddatblygu cymunedau gael ei lywio gan adeiladau, ond yn hytrach, dylid ei lywio gan bobl. Fodd bynnag, o ran Canolfannau Cymunedol, mae materion i'w hystyried o ran gallu pwyllgorau

	rheoli i gymryd cyfrifoldeb dros yr adeiladau.
--	--

2.6 Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden – Cerddoriaeth a'r Celfyddydau

Addasrwydd a Digonolrwydd:	Mae angen adnewyddu Sefydliad y Glowyr yn y Coed Duon, gan gynnwys cyfleusterau gwell y tu ôl i'r llwyfan. Mae'r neuadd lai sydd ar wahân mewn cyflwr gwael iawn. Ystyrir gwneud gwaith adnewyddu ym Medwas er mwyn darparu ar gyfer y celfyddydau. Mae angen gwella neuadd Ysgol y Castell.
Materion Allweddol /Newidiadau:	Nododd y canolbwyntio strategol ar y Coed Duon a Bedwas fod angen swyddogaethau corfforaethol/busnes a phreifat yn ardal y Coed Duon y gallai'r Sefydliad eu bodloni pe bai adnoddau digonol yn cael eu cyfeirio at wella adeiladau. Anogir y gwaith o ddatblygu cyfleusterau lleol mewn canolfannau cymunedol ac ysgolion. Gwelliannau mynediad i Ysgol y Castell. Oriol a gweithdai crefft tymor hir yn Nhrecelyn.

2.7 Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden - Llyfrgelloedd

Addasrwydd a Digonolrwydd:	Mewn cyflwr gwael ar y cyfan ac mae angen buddsoddi mewn gwaith cynnal a chadw. Mae ymateb i newid o ran TGCh ochr yn ochr â gwasanaethau traddodiadol llyfrgelloedd yn anodd o ganlyniad i faint ac ansawdd yr adeiladau sy'n bodoli eisoes. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno'r meintiau lleiaf posibl ar gyfer llyfrgelloedd fel rhan o gynllun 3 blynedd. Mae pwysau i gyflawni amcanion corfforaethol fel e-lywodraeth, cynhwysiad cymdeithasol, ac ati, o'r adeiladau y bydd angen mwy o le arnynt. Mae potensial i ddarparu gwasanaethau "Cwsmeriaid yn Gyntaf" y Cyngor o'r llyfrgelloedd.
Materion Allweddol /Newidiadau:	Llyfrgell Caerffili yw'r brif flaenoriaeth yn nhermau dod o hyd i lyfrgell newydd. Yn ddiweddar, mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi cyflwyno Cynllun Safonau Llyfrgelloedd tair blynedd i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyn yn nodi'r safonau y mae angen i'r Awdurdod eu cyrraedd, gyda llawer ohonynt yn berthnasol i'r lleoliad, ansawdd, a maint yr adeiladau. Mae Cynllun Gweithredu i gyflawni gwelliannau mewn 5 lleoliad.

3.1 Cyfarwyddwr yr Amgylchedd- Gwasanaethau Cyhoeddus

Addasrwydd a Digonolrwydd:	Mae llawer o'r Cyfleusterau mewn cyflwr gwael ac mae problem gyson o ran fandaliaeth yn yr adeiladau lle nad oes gofalwr. Bydd angen diwygio cyfleusterau o dan DDA ac ni ellir addasu rhai ohonynt i gydymffurfio â'r Ddeddf. Mae angen darpariaeth well ac ychwanegol â gofalwr yn Rhymini, Trecelyn a Rhisga.
Materion Allweddol /Newidiadau:	Gellid cynnig darpariaeth amgen ar gyfer gwasanaethau o fewn adeiladau busnesau lleol gyda grant fel cymhelliad. Pe byddai'r ymagwedd arloesol hon yn cael ei mabwysiadu, yna gallai'r Awdurdod ystyried rhesymoli/gwaredu'r ddarpariaeth bresennol yn ehangach.

3.2 Cyfarwyddwr yr Amgylchedd – Gwasanaethau Profedigaeth

Addasrwydd a Digonolrwydd:	Mae Iechyd a Diogelwch yn y gweithle yn fater mewn mynwentydd gyda chofebau sy'n dirywio ac sy'n beryglus. Dros y 5 mlynedd nesaf, bydd angen mwy o le claddu mewn nifer o fynwentydd ac amrywiaeth o wasanaethau amgen.
Materion Allweddol	Mae trefniadau wrth law i gaffael/dosbarthu/datblygu tir ym mynwentydd

/Newidiadau:	Bedwellte, Gelli-gaer, Danygraig ac Aber-carn. Mae gwelliannau i'r system ddraenio yn cael eu dylunio ar gyfer tir sydd ei angen am gladdedigaethau yn cyffinio â Mynwent Rhymni. Mae angen gwelliannau i'r seilwaith yn gyffredinol.
---------------------	---

3.3 Cyfarwyddwr yr Amgylchedd – Rheoli Gwastraff

Addasrwydd a Digonolrwydd:	Mae angen adleoli'r safle Amwynder Dinesig yn Nhir-y-berth am nad yw'n ddigon mawr i ymdopi â'r galw cyfredol a'r ddarpariaeth o wasanaethu. Efallai y bydd angen adleoli ail safle Amwynder Dinesig, a leolir ar hyn o bryd ar safle tirlenwi Trehir, pan fydd y safle tirlenwi yn cau ym mis Chwefror 2005. Efallai y bydd angen safle Amwynder Dinesig arall i wasanaethu ardal Bargod/Aberbargod.
Materion Allweddol /Newidiadau:	<p>Ar hyn o bryd, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn y broses o gaffael partner sector preifat ar gyfer darparu gwasanaethau rheoli gwastraff (heb gynnwys casglu) dros yr 20 mlynedd nesaf. Hyd nes y dewisir partner, nis gwyddir beth fydd y gofynion tir ar gyfer datblygu seilwaith. Mae datblygu Takihiron yn opsiwn sy'n amodol ar gynigion rheoli gwastraff y partner - £0.5M wrth gefn.</p> <p>Cynnal a chadw/gwella safleoedd Amwynder Dinesig. Adleoli 2 Safle Amwynder Dinesig (Penallta yn cael ei hystyried gydag Rhesymoli Depos yn 5.1)</p> <p>Mae safleoedd tirlenwi sydd wedi cau yn aros yn gyson nes y byd y Cyngor yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros Drehir (mae'r contract menter ar y cyd presennol yn rhedeg tan 2005). Bydd yr awdurdod yn cael yr atchweliad rhydd-ddaliadol a bydd angen iddo nodi'r arian sydd ei angen er mwyn darparu ôl-ofal.</p> <p>Rhwymedigaethau parhaus mewn perthynas â 18 safle tirlenwi wedi'u cau – y gofynion buddsoddi er mwyn cynnal a chadw, addasu neu ddatblygu'r safleoedd hyn at ddefnydd buddiol.</p>

4.1 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Comisiynu

Addasrwydd a Digonolrwydd:	Mae Bargod yn arbennig o lawn o ganlyniad i gynnydd diweddar yn nifer y staff. Nodwyd rhagor o adeiladau ond byddai angen eu prydlesu.
Materion Allweddol /Newidiadau:	<p>Mae cynigion amrywiol yn cael eu hystyried er mwyn ad-drefnu a gwella is-orsafedd, ond os dilynr y rhain, bydd angen eu hystyried yng nghyd-destun mentrau eraill gan gynnwys Canolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid a Swyddfeydd Ardal ar gyfer Tai.</p> <p>Bydd y Gyfarwyddiaeth yn gweithio i atgyweirio a chynnal a chadw'r holl adeiladau y mae'n gyfrifol amdanynt.</p>

4.2 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol – Adeiladau Preswyl

Addasrwydd a Digonolrwydd:	Archwiliwyd pob adeilad mewn perthynas â'u cyflwr, ac mae'r Arolwg o Gyflwr hwn yn llywio'r rhaglen cynnal a chadw. Bydd methu ag ymateb i'r fframwaith statudol ar gyfer safonau adeiladau yn arwain at sefydliadau yn cael eu datgofrestru. Mae safonau o ran maint yn cael eu cyrraedd ar hyn o bryd ond bydd angen ymdrin â'r gwaith addurno a'r lefelau staffio. Mae'n debyg y bydd angen adeiladau "lloches" / dibyniaeth o'r radd uchaf yn y dyfodol.
-----------------------------------	--

Materion Allweddol /Newidiadau:	<p>Ar gyfer oedolion gydag anabledd dysgu y nod yw rhoi pobl o fewn eu cymunedau eu hunain at ddibenion byw a gweithgareddau dyddiol a bydd hyn yn arwain at gynydd yn yr angen am adeiladau preswyl bach.</p> <p>Mewn rhai achosion lle y bydd plant o dan ofal y Cyngor, mae'r cyfrifoldeb bellach yn para hyd at 25 oed. Bydd angen adeiladau addas ar gyfer pobl ifanc o'r fath, gan olygu cydweithio'n agosach â'r Gyfarwyddiaeth Tai. Efallai y bydd gofyniad hefyd i gynyddu nifer y lleoedd preswyl sydd ar gael gennym o fewn y Sir, a bydd hwn yn brosiect adeiladu o'r newydd fwy na thebyg.</p> <p>Bydd cartref Tair Erw i oedolion ag anableddau dysgu yn cau.</p>
--	---

4.3 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau i Ddarparwyr

Addasrwydd a Digonolrwydd:	<p>Nid yw'r adeiladau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer yr anghenion mwy cymhleth sydd â dibyniaeth uwch sy'n dod i'r amlwg gyda defnyddwyr y gwasanaethau. Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo'r gwaith o addasu adeiladau preswyl safonol er mwyn gwella'r gofal ar gyfer pobl hyn sydd â gwendid meddwl.</p> <p>Ar y cyfan, defnyddir y canolfannau drwy'r diwrnod gwaith cyfan, ac archwilir cyfleoedd ar gyfer eu defnyddio y tu allan i'r oriau agor ar hyn o bryd. Nid yw nifer y defnyddwyr yn gostwng ac mae gwybodaeth ddemograffig yn awgrymu cynnydd yn y galw dros y blynyddoedd i ddod ar gyfer gwasanaethau dydd a ddefnyddir yn helaeth eisoes.</p>
Materion Allweddol /Newidiadau:	<p>Mae datblygiadau yn y gofynion gwasanaeth dydd yn canolbwyntio mwy ar ddarpariaeth sy'n seiliedig ar y gymuned ac yn symud i ffwrdd o'r canolfannau dydd traddodiadol sy'n debyg i sefydliadau. Dylid cynnig dewis i'r bobl sy'n derbyn gwasanaethau o ran y dull cyflenwi, a hynny yn seiliedig ar eu hanghenion, nid ar ba un a oes adeilad ar gael a all ddarparu gwasanaeth yn eu hardal, neu a oes bws ar gael i fynd â hwy ar draws y Fwrdeistref.</p> <p>Mae'r Gyfarwyddiaeth yn edrych y tu allan i ffiniau'r Cyngor o ran mentrau cenedlaethol, gan weithio gyda'r Grŵp Iechyd Lleol ar nifer o faterion gan gynnwys cynllunio a chyflenwi ar y cyd.</p>

5.1 Cyfarwyddwr yr Amgylchedd – Swyddfeydd a Depos Peirianeg

Addasrwydd a Digonolrwydd:	<p>Mae'r gost o adnewyddu Aber-carn yn sylweddol. Mae swyddfeydd Penmaen yn groes i ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch ac mae angen eu huwchraddio. Mae angen rhoi wyneb newydd i'r iard.</p>
Materion Allweddol /Newidiadau:	<p>Er mwyn ategu'r gwaith o wella gwasanaethau, bydd y gwasanaeth Sbwriel a Glanhau yn uno â'r gwasanaeth Cynnal a Chadw Cerbydau yn Nhir-y-berth. Bydd hyn yn golygu bod angen adleoli Safle Amwynder Dinesig. Bydd cyfleusterau Aber-carn yn adleoli i Dir-y-berth yn dilyn adleoli'r gwasanaeth Cynnal a Chadw Tiroedd. Bydd adleoli cyfleusterau Hafod-yr-ynys yn rhyddhau safle ond bydd angen adeiladu sgubor halen newydd ym Mhenmaen. Ceir arian o dderbyniadau a neilltuwyd yn benodol, Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy, DLO, a rhaglen gyfalaf.</p>

5.2 Cyfarwyddwr yr Amgylchedd – Adfer Tir

Addasrwydd a	
---------------------	--

Digonoldeb:	
Materion Allweddol /Newidiadau:	Mae o leiaf 120 o hen safleoedd adfer tir a rhai cyfredol o feintiau a chymhlethdod amrywiol. Pan na nodwyd unrhyw ôl-ddefnydd, mae'r Adran Cefn Gwlad ar y cyfan wedi rheoli'r tir ar y cyd â'r tîm Adfer Tir. Mae pryderon ynghylch erydu'r borfa ar safleoedd gan fod y llystyfiant yn gweithredu i gyfuno'r deunydd arwyneb a gallai ei gollu arwain at ansefydlogrwydd. Yn gyffredinol, caiff y gwaith o gaffael tir ei ariannu 100% gan arian Awdurdod Datblygu Cymru. Cyllidebau presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n talu'r costau cychwyn a'r costau cleientiaid.

5.3 Cyfarwyddwr yr Amgylchedd – Cefn Gwlad

Addasrwydd a Digonolrwydd:	Cynigir gwaith adnewyddu/cyfleusterau newydd ym Mharc Cwm Darren a Phwll Pen y Fan. Mae angen dadwaddodi'r prif lyn ym Mharc Cwm Darren, a disgwylir adroddiad gan Beirianwyr ar Gronfa Pwll Pen y Fan. Gofod a chyfleusterau iechydol annigonol yn Full Moon. Mae'r cyfleusterau yng Ngwaun-y-bara hefyd yn wael ac mae angen eu huwchraddio ond dylid eu hystyried fel rhan o broses rhesymoli bosibl, yn enwedig gan y bydd Tongwynlais yn cael ei gwagio.
Materion Allweddol /Newidiadau:	Materion rheoli tir a rhwymedigaethau seilwaith yn deillio o Ddeddf Hawliau Tramwy Cefn Gwlad. Materion rheoli a chynnal a chadw mewn perthynas â safleoedd a adferwyd ynghyd â phroblemau yn sgîl defnydd anghyfreithlon. Rhwymedigaethau seilwaith, materion rheoli a chynnal a chadw mewn nifer o safleoedd. Prosiectau ym Mharc Cwm Darren a Phwll Pen y Fan. Adfer Pwll Glo Markham a Thomen Tredomen. Posibilrwydd i waredu 2 eiddo mewn perchenogaeth ar y cyd yn Nghongwynlais a Gwaun-y-bara os gellir neilltuo derbyniadau yn benodol ar gyfer Canolfan Ymwelwyr newydd ar Fynydd Caerffili. Posibilrwydd i brydlesu 200 erw ar Fynydd Caerffili.

5.4 Cyfarwyddwr yr Amgylchedd – Adfywio Trefol

Suitability & Sufficiency:	Dd/G – Mae'r Gwasanaeth yn dal yr eiddo dros dro neu'n datblygu cynigion ar gyfer eiddo a ddelir gan eraill.
Materion Allweddol /Newidiadau:	Rhaglen o gynlluniau gwella trefol/amgylcheddol drwy ddefnyddio arian allanol, gan gynnwys atyniad newydd pwysig yng Nghaerffili – "Foodium". Materion yn ymwneud ag ôl-ofal amgylcheddol, a chostau gwella a chynnal a chadw gwaith celf.

5.5 Swyddfeydd Corfforaethol a Strategaeth

Addasrwydd a Digonolrwydd:	Prif nod y strategaeth fydd lleihau nifer yr adeiladau swyddfeydd corfforaethol a ddelir yn sylweddol tra'n gwella eu haddasrwydd a'u hansawdd ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae angen lleihau'r diffygion a nodwyd yn yr amgylchedd gwaith a'r cyfleusterau staff – gyda'r ail yn anodd i'w darparu i unrhyw raddau gydag adeiladau gwasgaredig. Mae prinder ystafelloedd cyfarfod mewn rhai safleoedd ac mae angen gwella cyfleusterau derbynfeydd a chyfweliadau. Mae angen talu sylw i drefniadau cyfarwyddiaethol a chorfforaethol ar gyfer archifo hefyd.
-----------------------------------	--

<p>Materion Allweddol /Newidiadau:</p>	<p>Ni ellir diffinio'r strategaeth dymor hir yn foddhaol hyd nes y datblygir cynigion darparu gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer Canolfannau Cwsmeriaid yn Gyntaf a hyd nes yr ystyrir goblygiadau arferion gwaith newydd. Yn gyfochrog â lleihau nifer y swyddfeydd corfforaethol a gwella'r ansawdd, dylai'r amcan ganolbwyntio ar ddod â chyfarwyddiaethau cyflawn at ei gilydd. Ar hyn o bryd, ystyrir canoli adeiladau swyddfeydd y pencadlys mewn dau safle.</p> <p>Gyda'r gwaith o ehangu TGCh, bydd y gofynion o ran gofod ar gyfer staff TG ac offer y gwasanaethydd yn cynyddu'n sylweddol. Yn gysylltiedig â'r ymagwedd "Cwsmeriaid yn Gyntaf" mae'r posibilrwydd o "Ganolfan Galwadau" gyda gofynion sylweddol o ran gofod.</p>
---	---

5.6 Eiddo anweithredol ac eiddo nad oes ei angen

<p>Materion Allweddol/ Gwarediadau:</p>	<p>Disgwylir y dylai eiddo a ddelir gan gyfarwyddiaethau gwasanaethau fod at ddibenion gweithredol yn unig. Pan fydd y defnydd presennol o eiddo wedi dod i ben, y Prif Swyddog Eiddo sy'n arwain y broses gorfforaethol i bennu ei ddyfodol. Ceir rhagdybiaeth pan na fynegir unrhyw ddi-ddordeb mewnol ar gyfer cadw eiddo bydd yr Is-adran Eiddo yn ceisio ei waredu, fodd bynnag nid oes potensial gwaredu gan lawer o barseli llai a bydd angen parhau i'w cynnal a'u cadw er diogelwch i'r cyhoedd.. Ar hyn o bryd, mae'r Is-adran Eiddo yn rheoli cyfrif daliad i uchafswm o £150,000 y flwyddyn., ond yn sgîl rhwymedigaethau cynyddol efallai y bydd angen cynyddu'r swm hwn (a godir eto ar gyfarwyddiaethau gwasanaethau).</p> <p>Cynhaliwyd adolygiad o warediadau posibl. Er bod y derbyniadau cyfalaf cyfredol yn ffafriol, yn y dyfodol, bydd y cwmpas ar gyfer gwerthiannau yn gyfyngedig. Gallai derbyniadau cyfalaf posibl leihau.</p>
--	--

6.1 Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd

<p>Materion Allweddol:</p>	<p>Dechreuwyd ar raglen o arolygon o tua 500 o adeiladau a strwythurau. Caiff y rhain eu blaenoriaethu er mwyn dod o hyd i adeiladau gyda defnydd cyhoeddus a/neu anabl uchel – addysg, hamdden, twristiaeth a gwasanaethau cymdeithasol – ond heb ddiystyru cyfleusterau fel cyfleusterau cyhoeddus a chofebau rhyfel. Er bod angen sicrhau cydymffurfiaid erbyn 2004, byddai'n anymarferol cyflawni newidiadau mor helaeth o fewn y terfyn amser. Mewn rhai achosion, o ganlyniad i gyfyngiadau ymarferol a materion "rhesymoldeb", ni chyflawnir cydymffurfiaid 100%. Bydd cwmpas y gwaith sydd ei angen yn ystyriaeth arwyddocaol wrth arfarnu'r opsiynau o ran rheoli asedau.</p> <p>Amcangyfrif bras o'r angen cyfan ar gyfer y portffolio eiddo cyffredinol yw £13m a bydd angen coethi hwn wrth i'r arolygon fynd rhagdynt. Mae angen £11.5m pellach ar gyfer ysgolion. Dylai pob newid a gwelliant yn y dyfodol o ran cyfalaf a refeniw gynnwys gwella mynediad – ond bydd buddsoddiad o'r fath yn gost guddiedig ar y cyfan. Yn anochel, bydd costau cynnal a chadw ychwanegol o ran liffiau, goleuadau, ac ati.</p>
-----------------------------------	--

7.1 Cynllun Cymunedol

<p>Addasrwydd a Digonolrwydd:</p>	<p>Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol i ddatblygu cynlluniau lleol i wella lles economaidd gymdeithasol a lles amgylcheddol. Er mwyn sicrhau cysondeb a chymorth, datblygir y cynlluniau hyn o fewn cyd-destun y Fforymau Ardal a phartneriaid ar draws y sir, ond fe'u cysylltir hefyd â chynllunio is-ranbarthol</p>
--	--

	<p>a datblygiadau ledled Cymru gyfan.</p> <p>Cynhaliwyd asesiadau lleol o angen gan ystyried argaeledd tir ac eiddo. Dangoswyd mapiau sy'n nodi tir y Cyngor ym mhob un o'r saith fforwm ardal yn ystod Hydref 2002.</p>
Materion Allweddol /Newidiadau:	<p>Paratowyd rhestr o bartneriaethau cymunedol gyda datganiad o faterion tir ac eiddo priodol, a defnyddir y rhestr hon fel rhestr wirio yn erbyn mentrau a materion a nodwyd gan Gyfarwyddiaethau Gwasanaethau.</p>

ADRODDIAD I'R TÎM RHEOLI CORFFORAETHOL

PWNC: DOSBARTHU A RHEOLI EIDDO
ADRODDIAD GAN: SWYDDOG EIDDO CORFFORAETHOL

1.0 DIBEN

1.1 I wneud argymhellion o ran y gweithdrefnau ar gyfer dal, dosbarthu a rheoli eiddo.

2.0 CYSYLLTIAD Â STRATEGAETH

2.1 Bydd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cynorthwyo'r Cyngor gyda'i nod o gyflawni pob gwasanaeth yn effeithiol a sicrhau gwerth am arian yn y broses o ddarparu gwasanaethau. Cefnogir egwyddorion Cynllunio Rheoli Asedau gan argymhellion Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Adolygiad Cymheiriaid, Cyd-adolygiad o'r Gwasanaethau Cymdeithasol, adroddiadau Estyn, ac ati.

3.0 GWYBODAETH:

3.1 Ar 3ydd Hydref 2000, derbyniodd y Cabinet adroddiad yn ymwneud â rheoli prosiectau. Un o'r materion a godwyd yn yr adroddiad hwn oedd yr angen i ystyried cyllidebau ôl-ofal/cynnal a chadw cyn gweithredu prosiectau. Mae hyn yn ennyn pryder penodol pan ymgwymerir â gwaith amgylcheddol neu waith adfer tir heb ofyniad na chyfrifoldeb parhaus ac amlwg o ran gwasanaethau.

3.2 Mae'r broblem yn deillio o ddiffyg gweithdrefnau clir ar gyfer ymdrin â:

- dyrannu daliadau eiddo i gyfarwyddiaethau gwasanaethau
- dosbarthu eiddo o un gyfarwyddiaeth i'r llall at ddibenion defnydd amgen
- trosglwyddo tir anweithredol i'r Is-adran Eiddo er mwyn iddi ei reoli
- trefniadau cyllidebol ar gyfer rheoli tir a gedwir i'w ddefnyddio yn y dyfodol
- trefniadau cyllidebol ar gyfer rheoli tir anweithredol

3.3 Yn ddiamau, bydd datblygu'r Cynllun Rheoli Asedau yn arwain at adolygu daliadau eiddo a nodi cyfleoedd i newid. Er mwyn meithrin awyrgylch sy'n cefnogi newid, mae'n hanfodol cael "rheolau sylfaenol" ymlaen llaw. Bydd cyfarwyddiaethau gwasanaethau am gael gwybod goblygiadau ariannol penderfyniadau a'r rhwymedigaethau a fydd yn codi yn sgîl hyn neu a fydd yn cael eu dileu wrth newid unrhyw beth yn ymwneud â dal yr eiddo. Yn ogystal, bydd rhywfaint o gymhelliant yn ddymunol er mwyn annog cyfarwyddwyr i ddatgan eiddo anweithredol fel eiddo nad oes ei angen o ran eu gofynion.

3.4 Mae gan y Cyngor bolisi clir, a bennwyd gan y Cabinet yn ystod Ionawr 2001, ynghylch y camau i'w cymryd unwaith y caiff eiddo ei ddatgan yn eiddo nad oes ei angen. Mae hyn yn cynnwys ymgynghoriad gan yr Is-adran Eiddo i sefydlu a oes gan y Cyngor unrhyw ddefnydd potensial arall ar gyfer yr eiddo a sylwadau aelodau'r Ward. Fodd bynnag, nid yw'n ymdrin yn fanwl â dal eiddo neu'r prosesau a allai arwain at ddatgan bod eiddo yn eiddo nad oes ei angen.

Dal Eiddo

3.5 Mae Rheolau Sefydlog yn ei wneud yn ofynnol i'r Is-adran Eiddo reoli tir ac adeiladau'r Cyngor heblaw tir ac adeiladau a ddefnyddir yn weithredol gan wasanaethau'r Cyngor. At hynny, ceir gofyniad penodol i gynnal adolygiadau o eiddo ar y cyd â chyfarwyddiaethau gwasanaethau a nodi eiddo nad oes ei angen y gellir ei waredu. Mae'r Rheoliadau Ariannol

newydd yn nodi mai'r Prif Swyddog Eiddo fydd yn gyfrifol yn gyffredinol am reoli ystad y Cyngor yn strategol.

- 3.6 Dyrannwyd llawer o'r eiddo a ddelir gan gyfarwyddiaethau gwasanaethau pan drosglwyddwyd cyfrifoldebau yn ystod proses Ad-drefnu Llywodraeth Leol ym 1996. Nid yw hyn o reidrwydd yn ymwneud â gofynion gweithredol, ac mewn rhai achosion, delir yr eiddo o ganlyniad i amgylchiadau caffael neu ddiben tybiedig yn hytrach nag unrhyw ddefnydd gwirioneddol a wneir o'r tir.
- 3.7 Hysbysir yr Is-adran Eiddo am unrhyw drafodion newydd o ran eiddo, a diweddarir y 'Terrier' yn unol â hynny. Fodd bynnag, mae materion yn codi yn aml pan fydd:
1. Dibenion gweithredol cyfarwyddiaeth gwasanaethau yn ymwneud â chyfran o'r parcel o dir yn unig, ac ni ddefnyddir y gweddill ac mae'n rhwymedigaeth o ran cynnal a chadw.
 2. Cynllun gwella'r amgylchedd wedi'i roi ar waith, ond ni fydd unrhyw fudd dilynol i'r gwasanaethau yn deillio ohono, ac nid oes unrhyw gyfarwyddiaeth gwasanaethau wedi derbyn "perchenogaeth" ar gyfer dibenion cynnal a chadw parhaus.
 3. Y broses o adfer tir wedi arwain at ddarnau mawr o dir heb unrhyw ddefnydd uniongyrchol gan y Cyngor, ond sydd â goblygiadau posibl o ran rheoli a chynnal a chadw.
 4. Tir wedi'i ddal gan gyfarwyddiaeth gwasanaethau er mwyn ei ddefnyddio yn y dyfodol, ond ni chyflwynir strategaeth nac achos busnes clir.
 5. Eiddo wedi'i ddal sy'n amlwg yn anweithredol, ond nid oes cymhelliad i'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau gytuno i'w ryddhau at ddefnydd amgen neu er mwyn ei waredu.
- 3.8 Yn aml, rhagdybir mai cyfrifoldeb yr Is-adran Eiddo yw pennu'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau briodol a dyrannu'r eiddo yn unol â hynny. Fodd bynnag, (oni fydd gwall patent yn y cofnod 'Terrier') nid yw cylch gorchwyl yr Is-adran Eiddo yn cynnwys swyddogaeth o'r fath, ac mae'n annerbyniol dyrannu rhwymedigaeth i gyfarwyddiaeth gwasanaethau heb ystyried y goblygiadau i'r gyllideb. Mae trafodaethau ofer a rhwystredigaeth yn deillio yn sgîl hynny – felly mae angen dull o weithredu er mwyn datrys materion o'r fath mewn dull hwylus.
- 3.9 Cynigir yr egwyddorion canlynol:
- a) Ceir rhagdybiaeth y bydd eiddo a ddelir gan gyfarwyddiaethau gwasanaethau at ddibenion gweithredol yn unig. Unwaith y pennir eiddo fel eiddo anweithredol, bydd cyfarwyddiaethau gwasanaethau yn ceisio trosglwyddo'r eiddo hwnnw i'r Is-adran Eiddo er mwyn iddi ei ddal (yn dilyn ymgynghoriad ar anghenion gwasanaethau gyda'u haelod o'r Cabinet ac Aelodau'r Ward fel y bo angen) yn amodol ar y cafeatai isod.
 - b) Disgwylir i gyfarwyddiaethau gwasanaethau gyflwyno achos busnes ar gyfer cadw eiddo anweithredol neu ei ddisbarthu at ddibenion gwasanaethau yn y dyfodol o'r portffolio a ddelir gan yr Is-adran Eiddo. Ceir rhagdybiaeth pan na fynegir unrhyw ddi-ddordeb mewnol ar gyfer cadw eiddo, y bydd yr Is-adran Eiddo yn ceisio ei waredu.
 - c) Pan ddelir eiddo ar gyfer ei ddefnyddio ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol, gellir gwneud trefniadau rheoli (e.e. trwyddedau pori dros dro) gyda'r Is-adran Eiddo, ond cyfrifoldeb y gyfarwyddiaeth sy'n ei ddal fydd unrhyw gostau cynnal a chadw eraill.
 - d) Bydd cyfarwyddiaeth gwasanaethau sy'n ymgymryd â gwelliannau i eiddo, gwelliannau amgylcheddol neu'n adfer tir yn gyfrifol am geisio trefniadau dal dilynol a chyllidebau ôl-ofal cyn gweithredu'r cynllun. Dylid hysbysu'r Is-adran Eiddo am gytundebau a geir a dylid anodi'r 'Terrier'/GIS yn unol â hynny. Os na nodir unrhyw wasanaeth(au) dal, bydd y

gyfarwyddiaeth gwasanaethau sy'n gweithredu'r cynllun yn parhau i fod yn ddeiliaid a byddant yn gyfrifol am y costau rheoli ac ôl-ofal.

e) Caiff tir neu adeiladau anweithredol lle na wneir gwaith cynnal a chadw yn rheolaidd a lle nad oes unrhyw rwymedigaeth fawr, eu trosglwyddo i'r Is-adran Eiddo. Caiff y 'Terrier'/GIS ei anodi i ddangos bod yr Is-adran yn dal yr eiddo tra'n disgwyl ei waredu a hysbysir yr Uwch Gyfrifydd (Cyfalaf) am y gwaith o ddiwygio'r Gofrestr Asedau.

f) Pan fydd tir neu adeiladau yn destun gwaith atgyweirio neu gytundebau cynnal a chadw tiroedd (ac eithrio lle y gellir disgwyl eu gwaredu yn fuan), yr Is-adran Eiddo fydd yn gyfrifol am yr eiddo yn amodol ar drosglwyddo'r ddarpariaeth gyllidebol, neu godi tâl blynyddol y cytunwyd arno unwaith eto hyd nes y gwaredir yr eiddo neu'r adeiladau.

g) Pan fydd rhwymedigaeth sy'n bodoli eisoes – e.e. risg o halogi, risg geotechnegol neu risg strwythurol – y gyfarwyddiaeth gwasanaethau fydd yn gyfrifol am y safle oni fydd cyllideb (neu arian allanol) wedi'i diogelu ar gyfer gwaith adfer.

h) Caiff achos busnes ar gyfer dosbarthu eiddo gan gyfarwyddiaeth gwasanaethau ei ystyried, ei dderbyn neu ei wrthod gan y Prif Swyddog Eiddo yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn yr adroddiad hwn.

i) Gellid cyfeirio unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad y Prif Swyddog Eiddo i'r Tîm Rheoli Corfforaethol gan gyfarwyddiaeth gwasanaethau, ynghyd â chyflwyniad ysgrifenedig gan y Prif Swyddog Eiddo yn egluro'r rhesymau dros wrthod.

j) Caiff y broses ddsbarthu ei ffurfioli drwy ddiwygio'r 'Terrier' /GIS. Ni fydd angen i'r aelodau wneud penderfyniadau.

3.10 Cydnabyddir yr angen i ymgorffori proses ymgynghori a phroses cynllunio cymunedol. Fodd bynnag, mae angen cynnal cydbwysedd er mwyn sicrhau nad yw mentrau'r Cyngor neu'r gwaith o waredu eiddo yn cael eu rhwystro gan ddyheadau lleol na ellir eu gwireddu neu wrthwynebiad di-sail. Ni ddylid cymhwyso gweithdrefnau gwaredu yn rhy llym fel eu bod yn atal defnydd cymunedol o eiddo nad oes ei angen. Disgwylir i gyfarwyddiaethau gwasanaethau fod yn ymwybodol o ddefnydd cymunedol posibl, a dylent wneud sylwadau ar hyn, pan fydd yr Is-adran Eiddo yn ymgynghori â hwy ar ddefnyddio neu waredu eiddo anweithredol yn y dyfodol.

3.11 Ceir achosion lle y bydd gwaredu eiddo yn arwain at dalu grantiau, 'adfachu' arian, ad-dalu cronfeydd ymddiriedolaeth, ac ati. O dan amgylchiadau o'r fath, bydd y Prif Swyddog Eiddo yn cydweithio â'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau a Phennaeth Cyllid Corfforaethol fel y bo'n briodol.

4.0 GOBLYGIADAU ARIANNOL:

4.1 Mae gan yr Is-adran Eiddo "gyllideb" o £100,000 y flwyddyn ar gyfer rheoli a chynnal a chadw eiddo anweithredol a ddelir gan yr Is-adran ar hyn o bryd. Mewn gwirionedd, cyfrif dal yw hwn a chodir tâl am wariant eto ar y cyfarwyddiaethau gwasanaethau, a hynny yn chwarterol ar ddsbarthiad y cytunwyd arno ymlaen llaw. Nid yw'r swm hwn yn caniatáu llawer o gwmpas ar gyfer rheoli daliadau ychwanegol. Ni ellir gwerthu llawer o barseli llai o dir anweithredol, a byddant yn cyflwyno rhwymedigaeth dros ben.

4.2 Goblygiad yr ymarfer Rheoli Asedau yw y caiff pob eiddo anweithredol ei nodi a'i drosglwyddo i'r Is-adran Eiddo er mwyn iddi ei reoli. Oni chaiff unrhyw ddarpariaeth gyllidebol bresennol ei throsglwyddo (ac nid yw'n debygol bod cyfarwyddiaethau gwasanaethau yn darparu cyllid yn benodol ar gyfer rhwymedigaethau o'r fath), yna bydd achosion o godi tâl cynyddol unwaith eto yn anochel. Bydd y Prif Swyddog Eiddo yn adolygu'r sefyllfa ariannol yn rheolaidd ac yn yr achos cyntaf, yn cyflwyno unrhyw oblygiadau i'r Grŵp Rheoli Asedau a'r Grŵp Masnachu Mewnol.

4.3 Mae rhai awdurdodau wedi ceisio annog y gwaith o waredu eiddo drwy ganiatáu i'r gwasanaeth gadw rhywfaint o'i dderbyniad cyfalaf dilynol, neu'r cyfan ohono. Ar adegau, mae Caerffili wedi caniatáu i gyfarwyddiaeth ddefnyddio ei phortffolio eiddo fel ased busnes gan ailfuddsoddi derbyniadau yn y gwasanaeth i gyflawni amcanion allweddol. Fodd bynnag, mae clustnodi derbyniadau posibl yn y ffordd hon (ac eithrio ar gyfer gofynion cyfrifo mewn perthynas â gwarediadau Cyfrif Refeniw Tai) yn milwrio yn erbyn arfarnu angen yn briodol a dyrannu adnoddau ariannol. Nid yw'r Grŵp Rheoli Asedau yn ffafrio'r ymagwedd hon. Dylid gwneud penderfyniadau ynghylch buddsoddi yn gorfforaethol. Felly, neilltuo derbyniadau yn benodol yw'r eithriad, a dim ond pan ategir hyn gan achos cryf iawn y bydd hynny'n digwydd.

5.0 GOBLYGIADAU PERSONÉL:

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol er efallai y bydd angen adolygu adnoddau staff ar gyfer rheoli eiddo anweithredol maes o law.

6.0 ARGYMHELLION:

6.1 Dylai'r Tîm Rheoli Corfforaethol gymeradwyo'r egwyddorion ar gyfer dal a dosbarthu eiddo fel y nodwyd ym mharagraff 3.9.

7.0 RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION:

7.1 I sefydlu sail glir ar gyfer gweithredu a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â Rheoli Asedau, dal eiddo a'i waredu.

Awdur: Roland Lamble, Rheolwr Eiddo Corfforaethol

Rhif Estyniad: 5572

Cyfeiriad e-bost: lamblr@caerphilly.gov.uk

Ymgynghorwyr
Chris Burns, Pennaeth Polisi
Phil Davy, Pennaeth Datblygu Economaidd
Peter Gomer, Pennaeth Dysgu Gydol Oes
Steve Lawrence, Rheolwr Is-adrannol, Blaengynllunio Addysg
Pat Mears, Prif Swyddog Cynllunio
Uta Roberts, Prif Gyfrifydd
Satya Schofield, Rheolwr Gwasanaethau, Gwasanaethau Cymdeithasol
Cris Davies, Prif Swyddog Tai
Ian Medlicott, Swyddog Monitro
Adrian Isaacs, Pennaeth Cyllid Corfforaethol
Roger Webb, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Technegol

Papurau Cefndirol:

Cabinet – 3ydd Hydref 2000, Eitem 3(9) ar yr Agenda “Penodi Rheolwyr Prosiectau”

Cabinet – 16eg Ionawr 2001, Eitem 3(4) ar yr Agenda “Gwaredu Eiddo”

Ar gyfer archwiliad cysylltwch â: Gary George, Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgorau, 01443 864420

YSGOLION CYNRADD

Ysgol Gynradd Aberbargod
 Ysgol Gynradd Aber-carn (ni ddefnyddir yr 2il adeilad)
 Ysgol Gynradd Abertyswg
 Ysgol Gynradd Argoed
 Ysgol Gynradd Parc Bargod
 Ysgol Gynradd Y Coed Duon
 Ysgol Gynradd Cefn Fforest
 Ysgol Gynradd Coed-y-brain
 Ysgol Gynradd Lefel Uwch Crymlyn
 Ysgol Gynradd Cwm lfor
 Ysgol Gynradd Cwm-carn
 Ysgol Gynradd Cwmfelin-fach
 Ysgol Gynradd Cwmsyfiog
 Ysgol Gynradd Cwrt Rawlin
 Ysgol Gynradd Deri
 Ysgol Gynradd Derwen-deg
 Ysgol Gynradd Elliotstown
 Ysgol Gynradd Fleur-de-lys
 Ysgol Gynradd Fochriw
 Ysgol Gynradd Gilfach Fargod
 Ysgol Gynradd Glyn-gaer
 Ysgol Gynradd Graig-y-rhacca
 Ysgol Gynradd Greenhill
 Ysgol Gynradd Parc Hendredenny
 Ysgol Gynradd Yr Hengoed
 Ysgol Gynradd Libanus
 Ysgol Gynradd Rhymni Isaf
 Ysgol Gynradd Machen
 Ysgol Gynradd Maesycwmer
 Ysgol Gynradd Markham
 Ysgol Gynradd Nant-y-parc
 Ysgol Gynradd Panside
 Ysgol Gynradd Pengam
 Ysgol Gynradd Penllwyn
 Ysgol Gynradd Pentwyn-mawr
 Ysgol Gynradd Phillipstown
 Ysgol Gynradd Pontllan-fraith
 Ysgol Gynradd Pontllan-fraith Y Bryn
 Ysgol Gynradd Pontlotyn
 Ysgol Gynradd Rhudri
 Ysgol Gynradd Rhisga
 Ysgol Gynradd Babyddol St. Helens
 Ysgol Gynradd Tir-phil
 Ysgol Gynradd Tir-y-berth
 Ysgol Gynradd Trinant
 Ysgol Arbennig Trinity Fields
 Ysgol Gynradd Twyn
 Ysgol Gynradd Tyn-y-weydd
 Ysgol Gynradd Tyn-y-wern
 Ysgol Gynradd Tŷ-sign
 Ysgol Gynradd Rhymni Uchaf (ni ddefnyddir un o'r dosbarthiadau)
 Ysgol Gynradd Waunfawr
 Ysgol Gynradd Ynys-ddu

YSGOLION IAU

Ysgol Iau Bedwas
 Ysgol Iau Cwmaber
 Ysgol Iau Hendre
 Ysgol Iau Parc Lansbury
 Ysgol Iau Llancaiach
 Ysgol Iau Plas-y-felin
 Ysgol Iau Rhiw-syr-Dafydd
 Ysgol Iau Gymysg Santes Gwladys
 Ysgol Iau Ystrad Mynach

YSGOLION BABANOD

Ysgol Fabanod Bargod
 Ysgol Fabanod Bedwas
 Ysgol Fabanod Cwm Glas
 Ysgol Fabanod Cwmaber
 Ysgol Fabanod Hendre
 Ysgol Fabanod Parc Lansbury
 Ysgol Fabanod Llanfabon
 Ysgol Fabanod Oakdale
 Ysgol Fabanod Plas-y-felin
 Ysgol Fabanod Tŷ Isaf
 Ysgol Fabanod Ystrad Mynach

YSGOLION CYNRADD CYFRWNG CYMRAEG

YG Cwm Gwyddon, Aber-carn
 YG Trelyn
 YGG Bargod
 YGG Caerffili
 YGG Y Castell
 YGG Ystrad Mynach
 Ysgol Babanod/Iau lfor Bach
 Ysgol-y-Lawnt

YSGOLION CYFUN

Ysgol Uwchradd Bedwas
 Ysgol Gyfun Bedwellte
 Ysgol Gyfun Y Coed Duon
 Ysgol Uwchradd Cwm-carn (Ysgol Sylfaen)
 Ysgol Gyfun Heolddu
 Ysgol Gyfun Lewis i Ferched
 Ysgol Gyfun Trecelyn
 Ysgol Gyfun Oakdale
 Ysgol Gyfun Pontllan-fraith
 Ysgol Gyfun Rhymni
 Ysgol Gyfun Rhisga
 Ysgol Gyfun Sant Cenydd
 Ysgol Gyfun Sant Ilan
 Ysgol Gyfun Sant Martin
 +
 Ysgol Lewis (Menter Cyllid Preifat)
 YG Cwm Rhymni (Menter Cyllid Preifat)

LLYFRGELLOEDD

Llyfrgell Aberbargod
Llyfrgell Aber-carn
Llyfrgell Abertridwr
Llyfrgell Bargod
Llyfrgell Bedwas
Llyfrgell Y Coed Duon
Llyfrgell Caerffili
Llyfrgell Teganau Cefn Fforest (y tu fewn i'r Ysgol Gynradd)
Llyfrgell Deri
Llyfrgell Llanbradach
Llyfrgell Machen
Llyfrgell Nelson
Llyfrgell Tredegar Newydd
Llyfrgell Trecelyn
Llyfrgell Oakdale
Llyfrgell Pengam
Llyfrgell Pontlotyn
Llyfrgell Rhymni
Llyfrgell Rhisga
Llyfrgell Ystrad Mynach
Pencadlys Llyfrgelloedd Ysgolion - Woodfieldside

CANOLFANNAU IEUENCTID

Canolfan Ieuencid Y Coed Duon
Canolfan Ieuencid Bedwas
Canolfan Ieuencid Fochriw
Canolfan Ieuencid Heolddu (y tu mewn i Ysgol Gyfun Heolddu)
Canolfan Ieuencid Maesycwmer
Canolfan Ieuencid Markham
Canolfan Ieuencid Pontllan-fraith
Canolfan Ieuencid Rhymni
Canolfan Ieuencid Rhisga
Canolfan Ieuencid Sant Ilan
Canolfan Ieuencid Trinant
Canolfan Ieuencid Ynys-ddu

CANOLFANNAU HAMDDEN A'R CELFYDDYDAU

Canolfan Hamdden Hanger 81 Aberbargod
Canolfan Hamdden Bedwas – pwll nofio Neuadd Gweithwyr Bedwas
Sefydliad y Glowyr Y Coed Duon
Canolfan Hamdden Caerffili
Canolfan Hamdden Cefn Fforest
Canolfan Hamdden Heolddu
Canolfan Bowlio o Dan Do Islwyn
Canolfan Hamdden Tredegar Newydd
Canolfan Hamdden Trecelyn
Canolfan Hamdden Pontllan-fraith
Canolfan Hamdden Rhisga
Canolfan Hamdden Ystrad Mynach

CANOLFANNAU/NEUADDAU CYMUNEDOL

Canolfan Gymunedol Abertridwr
Canolfan Gymunedol Abertyswg (ar brydles)
Canolfan Gymunedol Ael-y-bryn
Canolfan Gymunedol Argoed
Canolfan Gymunedol Bargod
Canolfan Gymunedol Britannia
Canolfan Gymunedol Brithdir
Canolfan Gymunedol Butetown
Canolfan Gymunedol Cascade
Canolfan Gymunedol Cefn Fforest
Canolfan Gymunedol Cefn Hengoed
Canolfan Gymunedol Channel View
Canolfan Gymunedol Crymlyn
Canolfan Gymunedol Cwmfelin-fach Sefydliad Deri
Canolfan Gymunedol Fleur-de-lys
Canolfan Gymunedol Fochriw
Neuadd Henoed Gilfach
Canolfan Gymunedol Gelli-gaer
Canolfan Gymunedol Glan-y-nant
Canolfan Gymunedol Graig-y-rhacca
Canolfan Gymunedol Yr Hengoed
Canolfan Gymunedol Llanbradach
Canolfan Gymunedol Rhymni Isaf
Neuadd y Pentref Machen
Canolfan Gymunedol Maesycwmer
Neuadd y Pentref Maesycwmer
Canolfan Hamdden Markham
Canolfan Gymunedol Nelson
Canolfan Gymunedol Tredegar Newydd
Canolfan Gymunedol Oakdale
Canolfan Gymunedol Pentwyn-mawr
Neuadd y Pentref Pen-y-bryn
Canolfan Gymunedol Pen-yr-heol
Canolfan Gymunedol Phillipstown
Canolfan Gymunedol Plasmawr
Canolfan Gymunedol Pontlotyn
Canolfan Dydd Rhymni
Canolfan Gymunedol Rhymni
Neuadd y Pentref Rhudri
Canolfan Gymunedol Senghennydd
Canolfan Gymunedol Tir-phil
Canolfan Gymunedol Tir-y-berth
Canolfan Gymunedol Trecenydd
Canolfan Gymunedol Twyn
Canolfan Gymunedol Y Fan

ADDYSG A HAMDDEN ARALL

Tŷ Oxford, Rhisga
Canolfan Ynys Hywel
Canolfan Cynghori ar gyfer pobl â nam ar eu golwg, Trecelyn

PAFILIYNAU / YSTAFELLOEDD NEWID

Pafiliwn Hamdden Aberbargod
Pafiliwn Lles Aberbargod (ddim yn cael ei ddefnyddio)
Pafiliwn Bowlio Aber-carn
Pafiliwn Lles Aber-carn
Pafiliwn Parc Lles Abertridwr
Ystafelloedd Newid Lles Abertyswg
Pafiliwn Parc Aneurin
Pafiliwn Bowlio Bargod
Ystafelloedd Newid Rygbi Parc Bargod
Bedwas, Pafiliwn Bowlio Parc y Bryn
Ystafelloedd Newid Cae Sioe Y Coed Duon
Pafiliwn Bowlio Cae Sioe Y Coed Duon
Pafiliwn Lles Brithdir
Cefn Fforest, Ystafelloedd Newid Coed Tyn-y-pwll
Cefn Fforest, Pafiliwn Ffordd Twyn-y-ffald
Pafiliwn Pêl-droed Croespenmaen
Ystafelloedd Newid Caeau Cwm-carn
Deri, Pafiliwn Hamdden Glyn Deri
Deri, Ystafelloedd Newid Glyn Deri
Fernlea, Pafiliwn Rhisga
Fleur-de-lys, Pafiliwn Dewi Sant
Pafiliwn Caeau Chwarae Fochriw
Gelli-gaer, Pafiliwn Claerwen (ddim yn cael ei ddefnyddio)
Pafiliwn Bowlio Gelli-gaer
Gelli-wen, Pafiliwn Cwmsyfiog
Pafiliwn Bowlio Lles Gilfach
Caban Symudol Cyrtiau Tennis Lles Gilfach
Ystafelloedd Newid Graig-y-rhacca
Pafiliwn Clwb Rygbi Hafod-yr-ynys
Pafiliwn Hamdden Llwynceilyn
Kay Field, Pafiliwn Crymlyn
Ystafelloedd Newid Hamdden Libanus
Pafiliwn Pêl-droed Llanbradach
Llanfabon, Pafiliwn Tretomas
Ystafelloedd Newid Caeau Chwarae Machen
Pafiliwn Caeau Chwarae Maesycwmer
Markham, Pafiliwn y Brenin Siôr
Pafiliwn Bowlio Morgan Jones
Ystafelloedd Newid Parc Morgan Jones (x2)
Nelson, Pafiliwn Hamdden Y Wern
Pafiliwn Rygbi Tredegar Newydd
Pafiliwn Bowlio Tredegar Newydd
Pafiliwn Bowlio Trecelyn
Pafiliwn Lles Trecelyn
Ystafelloedd Newid Caeau Parc Trecelyn
Oakdale, Pafiliwn Ffordd Maesygar
Pafiliwn Lles Glowyr Oakdale
Parc Pandy, Pafiliwn Crosskeys
Ystafelloedd Newid Caeau Chwarae
Pantside
Pengam, Pafiliwn Cae yr Ynys
Ystafelloedd Newid Hamdden Pentwyn-mawr

Ystafelloedd Newid Caeau Chwarae
Phillipstown
Pontllan-fraith, Pafiliwn Bowlio Parc Islwyn
Pontllan-fraith, Ystafelloedd Newid Parc
Islwyn
Pontllan-fraith, Pafiliwn Bowlio/Criced
Parc Islwyn
Pontllan-fraith, Pafiliwn Y Bryn
Pafiliwn Hamdden Pontlotyn (x2)
Pafiliwn Lles Pontlotyn
Pontymister, Pafiliwn Ffordd y Caeau
Pafiliwn Cae Eisteddfod Rhymni
Pafiliwn Bowlio Parc Coffa Rhymni
Pafiliwn Rygbi Parc Coffa Rhymni
Rhisga, Ystafelloedd Newid Cae
Longbridge
Pafiliwn Bowlio Lles Senghennydd
Tan-y-bryn, Pafiliwn Rhisga
Pafiliwn Caeau Chwarae Tir-y-berth
Parc Trelyn, Pafiliwn Fleur-de-lys
Pafiliwn Hamdden Trinant
Pafiliwn Bowlio Tŷ Isaf
Pafiliwn Chwaraeon Hamdden Tŷ Isaf
Pafiliynau Parc Virginia, Caerffili (x2)
Pafiliwn Hamdden Wattsville
Pafiliwn Bowlio Parc Waunfawr
Pafiliwn Hamdden Parc Waunfawr
Ynysddu, Pafiliwn Hamdden Nine Mile
Point
Pafiliwn Ystrad Fawr
Pafiliwn Bowlio Ystrad Mynach

CYNLLUNIO / CEFN GWLAD

Capel Babel, Cwmfelin-fach
Gwasanaeth Mynydda Caerffili
Ffermdy Gwaun y Barra, Rhudri
Bwthyn Lleuad Llawn, Wattsville
Pwll Pen y Fan, Oakdale
Parc Cwm Darran, Deri

EIDDO MYNVENTYDD

Mynwent Bedwas
Mynwent Bedwellte
Mynwent Dan-y-graig
Mynwent Gelli-gaer
Mynwent Gwaelod-y-brithdir
Mynwent Llanfach, Aber-carn
Mynwent Llanfabon (nid oes adeiladau ar y safle)
Mynwent Penyrheol
Mynwent Rhymni
Hen Fynwent Rhisga

DATBLYGU ECONOMAIDD A THWRISTIAETH

Canolfan Croeso Caerffili
Ffordd y Goedwig Cwm-carn
Amgueddfa'r Drenewydd
Tŷ Troellog Elliotstown
Maenordy Llancaiach Fawr
Uned y Fargen Newydd

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - PRESWYL

Cartref Henoed Beatrice Webb
Cartref Henoed Brodawel
Cartref Henoed Brynheulog
Cartref Henoed Castle View
Cartref Grŵp Hengoed - 14 Graig Road
Cartref Cymunedol i blant Heol Aneurin
Cartref Preswyl Montclair Avenue
Cartref Henoed Tŷ Darren, Rhisga
Cartref Henoed Min-y-mynydd, Rhymni
Cartref Preswyl Tair Erw
Cartref Henoed Tŷ Clyd
Cartref Henoed Tŷ Iscoed
Cartref Preswyl Tŷ Gwilym

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL – CANOLFANNAU DYDD

Canolfan Teulu Cwm Ifor
Canolfan Teulu Brondeg
Canolfan Dydd Bryntirion
Canolfan Dydd Caerffili
